



Datganiad o Gyfrifon

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr •
2024-25



**Swyddfeydd Dinesig Cyngor
Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Stryd yr
Angel, PEN-Y-
BONT AR
OGWR, CF31
4WB (01656)
643643**

Cynnwys

Adroddiad Naratif	4
Y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon	21
Datganiadau Ariannol	22
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	23
Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn	25
Mantolen	27
Datganiad Llif Arian Parod	28
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	29
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	88
Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	92
Rhestr o Derau	113

Adroddiad Naratif

Rhagymadrodd

Mae Datganiad o Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn darparu cofnod o sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cynhyrchu ei Ddatganiad o Gyfrifon i esbonio cyllid y Cyngor, i roi sicrwydd bod cyfrif priodol wedi'i roi am arian cyhoeddus, a bod sefyllfa ariannol y Cyngor ar sail ddiogel. Rhaid i'r Datganiad o Gyfrifon roi darlun 'gwir a theg' o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025, ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.


Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, rhoddir ystyriaeth i berthnasedd y wybodaeth. Mae perthnasedd yn gysyniad sy'n pennu a fyddai hepgoriad neu gamddatganiad o wybodaeth mewn adroddiad ariannol yn effeithio ar benderfyniadau defnyddiwr rhesymol. Os yw gwybodaeth yn arwyddocaol, mae'n berthnasol. Os yw'r wybodaeth yn ddibwys neu'n amherthnasol, dywedir ei bod yn amherthnasol. Mae Archwilio Cymru yn cyfrifo perthnasedd gan ddefnyddio 1% o wariant gros y Cyngor. Bydd Archwilio Cymru hefyd yn cyfrifo lefel ddibwys y bydd unrhyw gamddatganiadau yn cael eu hadrodd uwchlaw iddi i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn enwedig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r lefel ddibwys wedi'i gosod ar 5% o'r lefel perthnasedd. Mae gan rai meysydd o'r cyfrifon lefel llawer is o berthnasedd, yn enwedig y datgeliadau taliadau cydnabyddiaeth, lle mae perthnasedd wedi'i osod ar £1,000; a datgeliadau partion cysylltiedig, lle mae perthnasedd wedi'i osod ar £10,000 ar gyfer buddiannau unigolion. Mae lefel perthnasedd gyffredinol y Cyngor tua £5.85 miliwn ac mae unrhyw nodiadau i'r cyfrifon islaw'r gwerth hwn, nad ydynt yn ofynnol yn statudol, a lle mae'r Cyngor yn credu nad ydynt yn cynorthwyo dealltwriaeth, wedi'u hepgor. Mae'r gwahanol drothwyon perthnasedd wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Perthnasedd	Yn seiliedig ar 1% o wariant gros datganiadau ariannol drafft 2024/25	£5.85 miliwn
Trothwy adrodd (lefel 'ddibwys')	5% o berthnasedd	£0.29 miliwn
Meysydd o ddiddordeb penodol:		
Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol	Yn seiliedig ar arwyddocâd yr ardal	£1,000
Datgeliadau partion cysylltiedig	£10,000 (fesul unigolyn)	£10,000

Bydd gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i gael eu darparu gan y sector cyhoeddus, felly mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail 'busnes hyfyw'. Mae lefel y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio heb gynnwys ysgolion a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) (£124m) yn ddigonol i dalu cost darparu gwasanaethau'r Cyngor dros y tymor canolog.

Ynglŷn â Phen-y-bont ar Ogwr

Bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr




Mae bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru ac mae wedi'i lleoli'n gyfleus rhwng prifddinas Cymru, Caerdydd, i'r dwyrain a dinas Abertawe i'r gorllewin, tua 20 milltir o'r ddwy. Mae'n ffinio â siroedd Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg gydag arfordir hyd at Sianel Bryste ac mae'n cwmpasu ardal o 98.5 milltir sgwâr. Mae gan y Sir ddaearyddiaeth amrywiol gyda dyffrynnoedd yn y gogledd a 12.5 milltir o arfordir a thraethau i'r de. Mae'r M4 yn rhedeg trwy ganol y fwrdeistref sirol, ac mae cysylltiadau rheilffordd prif linell i Gaerdydd, Llundain ac Abertawe. Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yng nghanol llain ddiwydiannol ac arfordirol De Cymru. I'r gogledd mae tref breswyl Maesteg, i'r de-orllewin mae tref arfordirol, Porthcawl ac i'r dwyrain mae Pen-coed. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o 22 Cyngor yng Nghymru, ac mae'n cyfrif am oddeutu 4.7% o boblogaeth y wlad.

Proffil demograffig Pen-y-bont ar Ogwr


Dangosodd cyfrifiad 2021 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr fod 145,500 o bobl yn byw yn y sir. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu i 158,717 erbyn 2043, gyda chynnydd sylweddol yn cael ei ragweld yn y boblogaeth dros 65 oed, yn ôl prif ragamcanion poblogaeth 2018 ar gyfer awdurdodau lleol. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllideb y Cyngor os na ddarperir cyllid ychwanegol, yn enwedig o ran lleoedd ysgol, casglu gwastraff, gofal cymdeithasol i oedolion, seilwaith a chludiant.

Mae proffil y boblogaeth yn ffactor pwysig sy'n pennu'r galw am wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, megis yr angen am ofal cymdeithasol i oedolion a phlant. Mae'r rhagamcanion newid poblogaeth yn tynnu sylw at y pwysau posibl sy'n wynebu'r Cyngor gyda rhagamcan o gyfran gynyddol o bobl hŷn 65 oed a hŷn.



Strwythur gwleidyddol a rheoli

Democratiaeth y Cyngor



Ar 31 Mawrth 2025 roedd gan y Cyngor 51 o Gynghorwyr a etholwyd gan y gymuned i benderfynu sut y dylai'r Cyngor gyflawni ei amrywiol weithgareddau. Maent yn cynrychioli budd y cyhoedd yn ogystal ag unigolion sy'n byw yn y ward lle cawsant eu hethol i wasanaethu tymor yn y swydd. Maent yn cynrychioli pobl Pen-y-bont ar Ogwr ac yn gosod strategaeth gyffredinol a fframwaith cyllideb y Cyngor.

Mae'r cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau bod penderfyniadau'n effeithiol, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyngor yn ethol Maer yn flynyddol i gyflawni rôl ddinesig a hyrwyddo'r Sir. Mae'r Cyngor hefyd yn penodi arweinydd y Cyngor sy'n penodi Aelodau'r Cabinet, pob un â chyfrifoldeb am bortffolio penodol o wasanaethau.

Rôl y Cabinet yw bod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau mawr, darparu arweinyddiaeth, a chynnig y fframwaith cyllideb a'r gyllideb.

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor drwy:

- graffu ar benderfyniadau'r Cabinet;
- ystyried darpariaeth gwasanaethau, cynllunio, rheoli a pherfformiad meysydd gwasanaeth;
- caniatáu i bob Cynghorydd, dinesydd a rhanddeiliad gael dweud eu dweud mewn materion sy'n ymwneud â'r Cyngor;
- ystyried polisiâu, protocolau a chynlluniau a chynhyrchu adroddiadau ac argymhellion arnynt;
- cyfrannu at y broses ymgynghori flynyddol ar y gyllideb;
- cael y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cabinet a'r Cyngor yn y dyfodol drwy gyfarfodydd cyn gwneud penderfyniadau; a
- gallu adolygu penderfyniad sydd wedi'i wneud ond heb ei weithredu eto.

Mae pwyllgorau rheoleiddio a phwyllgorau eraill yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a chymeradwyo Datganiadau Ariannol y Cyngor.

Mae Bwrdd Rheoli Corfforaethol y Cyngor dan arweiniad y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y 3 Chyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid.

Strwythur Sefydliadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae gweithrediadau'r Cyngor wedi'u trefnu'n Gyfarwyddiaethau, ac mae pob un ohonynt yn adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn rheoli Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr. Y Cyfarwyddiaethau yw:

Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc: Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, Perfformiad Strategol, Cymorth i Ysgolion, a Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles: Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Gofal Preswyl, Gofal Cartref, Cyfleoedd Dydd; Atal a Lles – Canolfannau Hamdden, Canolfannau Cymunedol, Partneriaeth Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol; Gofal Cymdeithasol i Blant – Plant sydd â Phrofiad o Ofal, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, Mabwysiadu, Cymorth Cynnar, Ar Ffiniau Gofal a Gwaith Cymdeithasol.

Cymunedau: Cynllunio a Datblygu, Landlord Corfforaethol, Adfywio Strategol, Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff, Priffyrdd a Mannau Gwyrdd.

Prif Weithredwyr: Cyllid, Adnoddau Dynol, Partneriaethau, Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Rheoleiddiol, TGCh, Etholiadau, Tai a Digartrefedd, a Chymorth Busnes.

Amcanion a pherfformiad

Ein huchelgais – Sut y byddwn yn gweithio'n wahanol ar gyfer ein cymunedau

Yn ystod y cyfnod 2023-28, mae'r Cyngor eisiau buddsoddi yn y pethau cywir, y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan ein cymunedau. Rydym yn wynebu dewisiadau anodd ynghylch sut rydym yn blaenoriaethu gwariant, ni fyddwn yn gallu gwneud popeth i bawb. Ers y pandemig, ac yn yr argyfwng economaidd presennol, mae'r hyn y mae pobl ei eisiau wedi newid. Mae'r Cyngor wedi cytuno sut y bydd yn gweithio'n wahanol i addasu i'r newidiadau hyn fel y nodir (dde).



7 Amcan Lles y Cyngor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, weithio i wella lles Cymru. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi set o amcanion lles i ddangos sut y bydd y Cyngor yn cyfrannu at y nodau lles cenedlaethol. Mae'r amcanion lles isod wedi'u nodi yng [Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2023-28 – 'Cyflawni Gyda'n Gilydd'](#).

Amcan Lles 1: Bwrdeistref Sirol lle rydym yn amddiffyn ein pobl fwyaf agored i

niwed Y prif ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yw:

- Darparu gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion o ansawdd uchel a gwasanaethau cymorth cynnar i bobl sydd eu hangen
- Cefnogi pobl mewn tlodi i gael y cymorth sydd ei angen arnynt neu'r help y mae ganddynt hawl iddo
- Cefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd i ddod o hyd i le i fyw
- Cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael y gorau o'u haddysg
- Diogelu a gwarchod pobl sydd mewn perygl o niwed

Amcan Lles 2: Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, swyddi medrus o ansawdd uchel a threfi ffyniannus

Y prif ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yw:

- Helpu ein trigolion i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith
- Sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod o hyd i swyddi neu eu bod mewn addysg neu hyfforddiant
- Gwellu canol ein trefi, gan eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy deniadol
- Denu buddsoddiad a chefnogi busnesau lleol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes

Amcan Lles 3: Bwrdeistref Sirol gyda chymunedau ffyniannus yn y cymoedd Y

prif ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yw:

- Buddsoddi yng nghanol tref Maesteg a chreu rhagor o swyddi yn y cymoedd
- Gwellu cyfleusterau cymunedol a'u gwneud yn fwy hygyrch
- Gwellu addysg a sgiliau yn y cymoedd
- Buddsoddi yn ein parciau a chefnogi twristiaeth i'r cymoedd

Amcan Lles 4: Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial Y prif

ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yw:

- Darparu ysgolion diogel a chefnogol gydag addysgu o ansawdd uchel
- Ehangu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg
- Moderneiddio adeiladau ein hysgolion
- Cefnogi ac annog dysgu gydol oes
- Bod y rhieni gorau y gallwn i'n plant sydd wedi profi gofal
- Cynnig gwasanaethau ieuencid a rhaglenni gwyliau ysgol i'n pobl ifanc

Amcan Lles 5: Bwrdeistref Sirol sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur Y prif ffyrdd y byddwn yn

cyflawni hyn yw:

- Symud tuag at garbon sero net
- Gwellu effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau a'n gwasanaethau
- Diogelu ein tirweddau a'n mannau agored a phlannu mwy o goed
- Lleihau, ailddeddfyddio neu ailgylchu cymaint o'n gwastraff â phosibl
- Gwellu amddiffynfeydd rhag llifogydd a chynlluniau i leihau llifogydd yn ein cartrefi a'n busnesau

Amcan Lles 6: Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn

rhan o'u cymuned Y prif ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yw:

- Gwella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl leol, gan gynnwys pobl ifanc, gwrando ar eu barn a gweithredu arni
- Cynnig mwy o wybodaeth a chynghor ar-lein ac yn eich llyfrgelloedd ac adeiladau cymunedol, nid yn unig mewn Swyddfeydd Dinesig
- Helpu clybiau a grwpiau cymunedol i gymryd rheolaeth o'u cyfleusterau a'u gwella a'u diogelu ar gyfer y dyfodol
- Sicrhau y gallwch siarad â ni a chlywed gennym yn y Gymraeg
- Dathlu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant a mynd i'r afael â gwahaniaethu

Amcan Lles 7: Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cefnogi pobl i fyw bywydau iach a hapus Y prif ffyrdd y

byddwn yn cyflawni hyn yw:

- Gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol fel y gall pobl gerdded a beicio
- Cynnig gweithgareddau hamdden a diwylliannol deniadol
- Gwella cyfleusterau a chyfleoedd chwarae i blant
- Darparu pryddau ysgol am ddim ac ehangu darpariaeth gofal plant am ddim
- Integreiddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol â gwasanaethau iechyd fel bod pobl yn cael eu cefnogi'n ddi-dor
- Gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad hunanasesu Corfforaethol bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn sicrhau'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill, fod y Cyngor yn perfformio'n dda, yn gwneud penderfyniadau mewn ffordd synhwyrol ac agored ac yn defnyddio ei arian ac adnoddau eraill yn briodol. Yn bwysicaf oll, mae'r adroddiad yn dweud wrth drigolion lleol, busnesau a rhanddeiliaid sut mae'r Cyngor yn perfformio. Cyhoeddir Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor 2024-25 maes o law a bydd yn amlinellu sut mae'r Cyngor wedi perfformio yn erbyn pob un o'i amcanion fel y nodir uchod.

Llywodraethu a risg

Llywodraethu

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau o ran effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesedd. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, sydd wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen Datganiad o Gyfrifon, yn nodi trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn fanwl.

Rheoli Risg

Wrth ddarparu gwasanaethau, mae'r Cyngor yn wynebu amrywiaeth o risgiau, a all fygwth ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'i chyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhestrir isod rai o'r risgiau mwyaf arwyddocaol, a chmau lliniaru i fynd i'r afael â'r rhain.

Disgrifiad o'r risg	Canlyniadau posibl	Camau Iliniaru
Nid yw'r Cyngor yn gallu cyflawni cyllideb gytbwys a chynnal gwasanaethau yn y tymor canolig.	Rhaid gwneud y penderfyniadau anoddaf i dorri neu leihau lefelau gwasanaeth neu ni fydd y Cyngor yn cyflawni'r newidiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau cyllideb gytbwys, a fydd yn arwain at y Cyngor yn torri ei gyfrifoldebau cyfreithiol.	Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg hon drwy brosesau cynllunio cyllidebau a busnes presennol, sy'n cynnwys nodi targedau cynilion yn gynnar a datblygu opsiynau ar gyfer y Cabinet, her gan y Pwyllgor Craffu a briffiau ffurfiol ac anffurfiol i ddosbarthiadau aelodau a gwleidyddol.
Nid yw'r Cyngor yn gallu cyflawni trawsnewidiad a newid mawr i wasanaethau, gan gynnwys prosiectau a chynilion ariannol y cytunwyd arnynt.	Os na all y Cyngor newid y ffordd y mae staff yn gweithio, gan gynnwys rolau newydd, cydweithio a chaffael sgiliau newydd, bydd yn aflwyddiannus o ran trawsnewid gwasanaethau, a fydd yn arwain at beidio â chyflawni ei ymrwymadau o fewn y cyllidebau sydd ar gael.	Mae'r Cyngor wedi newid y ffordd y mae'n gweithredu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Rhaglen Cyflenwi Gwasanaethau newydd a meysydd gweithgaredd cynyddol fel "Tyfu Eich Hun" ynghyd â helpu i newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud ei fusnes a helpu prosiectau strategol bwysig eraill fel y Rhaglen Trawsnewid Digidol yn parhau i symud ymlaen. Er mwyn sicrhau bod prif flaenoriaethau trawsnewid allweddol y Cyngor yn cael eu cyflawni, rhaid adolygu a chytuno ar y prif flaenoriaethau.
Nid yw'r Cyngor yn gallu nodi a chyflawni gwelliannau seilwaith sydd eu hangen yn y tymor canolig i'r tymor hir oherwydd bod grantiau allanol wedi dod i ben, cost uwch benthyca a chostau uwch ar gyfer gwaith adeiladu.	Os nad oes gan y Cyngor ddigon o gyfalaf i gynnal, gwella ac ailosod seilwaith, gan gynnwys ffyrdd, goleuadau stryd, adeiladau ysgolion a thechnoleg, yna byddant yn dirywio gan ddod â risgiau ariannol a diogelwch a allai arwain at ddigwyddiadau niweidiol, adroddiadau, cyhoeddusrwydd, dirwyon ac erlyniad, yn y pen draw.	Mae gan y Cyngor raglen gyfalaf 10 mlynedd. Mae datblygiad y rhaglen hon a'r trefniadau ar gyfer ei hadolygu a'i diweddaru wedi'u hen sefydlu. Mae'r Cyngor wedi nodi lle i wella ar hyn er mwyn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cydbwysu â galw arall am gyfalaf drwy ddatblygu'r Bwrdd Rhaglen Gyfalaf newydd.
Mae'r Cyngor yn methu â chyflawni cyfrifoldebau statudol i ymateb i sefyllfaoedd lle mae unigolion mewn perygl o esgeulustod neu gam-drin. Byddai hyn yn cynnwys plant, oedolion sydd angen gofal cymdeithasol, unigolion digartref ac eraill.	Mae risg, heb gyllidebau digonol ac oherwydd diffyg gweithlu profiadol digonol, na fydd trefniadau diogelu'r Cyngor yn effeithiol, ac na fydd plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel a byddant yn profi niwed. Mae'r galw am wasanaethau'n parhau i gynyddu, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau.	Mae'r Cyngor yn parhau i flaenoriaethu'r maes gwaith hwn. Mae staff ychwanegol wedi cael eu cyflogi i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu'r galw cynyddol am wasanaethau; mae Polisi Taliadau Atodol ar sail y Farchnad y Cyngor wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi recriwtio staff i'r timau gofal plant; mae adnoddau wedi'u canfod i gefnogi nifer cynyddol o staff sy'n manteisio ar y cynllun hyfforddi gwaith cymdeithasol ac mae gwaith wedi'i wneud i sefydlu rhaglen recriwtio dramor. Mae arferion gwaith yn y gwasanaeth yn cael eu hadolygu ac mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol.

Disgrifiad o'r risg	Canlyniadau posibl	Camau lliniaru
Nid yw'r Cyngor yn gallu denu, datblygu na chadw gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i fodloni'r gofynion a roddir ar yr awdurdod a'i wasanaethau.	Os bydd gostyngiad parhaus yn nifer y staff sydd â'r sgiliau a'r profiad addas, yna ni fydd yr arbenigedd yn y gweithlu i ddarparu gwasanaethau a diogelu buddiannau'r Cyngor. Gallai hyn arwain at ostyngiad mewn lles dinasyddion, gostyngiad yn ansawdd y gwasanaeth, oedi wrth ddarparu gwasanaethau a cholli morâl ymhlith y staff sy'n weddill os ydynt yn teimlo nad ydynt yn cael cymorth ac felly'n chwilio am waith yn rhywle arall.	Mae mesurau wedi'u cymryd i geisio lliniaru a thrin y risgiau gan gynnwys y Polisi Taliadau Atodol ar sail y Farchnad a datblygu recriwtio rhyngwladol ymhellach. Mae defnydd o staff asiantaeth yn parhau i fod yn uchel mewn rhai ardaloedd ac mae gwaith uniongyrchol yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa hon.
Rhoi hwb i'r economi ac adferiad economaidd yn dilyn argyfwng costau byw a materion lleol fel cau busnesau yn yr ardal.	Mae'r argyfwng costau byw parhaus a'r ansicrwydd gwleidyddol a marchnad/ariannol yn effeithio ar unigolion a busnesau lleol. Bu cynnydd yn y galw am gymorth ariannol gyda chynnydd mewn ceisiadau am ostyngiad yn y Dreth Gyngor, taliad Treth Gyngor is ac ardrethi busnes is a chynnydd cyfatebol mewn gwasanaethau cyngor a chymorth perthnasol eraill y Cyngor. Mae busnesau lleol yn cael eu heffeithio'n arbennig gan y cynnydd chwyddiannol enfawr, yn enwedig mewn costau ynni, sy'n golygu ei bod yn anochel y bydd mwy o fregusrwydd yn y sector hwn. Mae cau TATA, a'r effaith ganlyniadol ar y gadwyn gyflenwi, yn debygol o effeithio ar ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol.	Cefnogi'r nodau a osodwyd gan y tasglu adferiad economaidd lleol a nodi a gweithredu'r camau gweithredu a argymhellir drwy ddatblygu Strategaeth Economaidd newydd. Cysylltu'n agos â chydweithwyr ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru i nodi a thargeddu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi i ychwanegu at y buddsoddiad a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ysgogi ac adfywio'r economi. Ceisio cyfeirio at gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, cymorth a swyddi newydd drwy dargeddu gwaith timau Cyflogadwyedd y Cyngor. Gweinyddu a thargeddu cynlluniau grant ariannol a darparu cymorth i fusnesau lleol i addasu i amgylchiadau newydd. Symud cynlluniau datblygu economaidd presennol ymlaen i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer 'cychwyn' busnesau drwy ddatblygu canolfannau mentegarwch ledled y Fwrdeistref Sirol. Gweithredu cynigion ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y gellir eu defnyddio i ariannu mentrau sy'n seiliedig ar Gyflogadwyedd/sgiliau

Disgrifiad o'r risg	Canlyniadau posibl	Camau lliniaru
Gallai pwysau sylweddol ar wasanaethau yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol effeithio ar allu gwasanaethau i gefnogi unigolion agored i niwed.	Nid yw'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu diwallu anghenion iechyd a gofal pobl mewn modd amserol, gan arwain at niwed a marwolaethau gormodol. Y risg uniongyrchol yw nad oes digon o gapasiti mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol i atal derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau o'r ysbyty yn amserol.	Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar lefelau uwch ar draws lechyd a'r Cyngor i ddeall y sefyllfa bresennol ac i gytuno ar y camau gweithredu ar y cyd sydd eu hangen i geisio mynd i'r afael â'r problemau.
Mae yna gynydd ym mregusrwydd ariannol ysgolion yn y Fwrdeistref.	Er bod y Cyngor yn ceisio lliniaru effaith y sefyllfaoedd ariannol cyffredinol ar gyfer ysgolion, mae cynllunio ariannol cyfredol yn cynnwys yr angen i leihau lefel y cymorth a roddwyd i ysgolion yn flaenorol. Mae canlyniadau hyn yn cynnwys ysgolion yn gorfod defnyddio eu balansau i ariannu gweithgarwch gyda risg uwch o ysgolion yn mynd i ddiffyg. Mae'n ofyniad bod ysgolion yn mynd i'r afael â diffyg o fewn 3 blynedd, 5 mlynedd mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd hyn yn anoddach wrth i'r cyllid a roddir i ysgolion leihau.	Mae strwythurau ar waith i uwchgyfeirio materion at uwch swyddogion ac Aelodau. Mae Fforwm Cyllidebau Ysgolion ar waith sy'n gorff ymgynghorol mewn perthynas â fformiwlâ ariannu ysgolion a materion cyllid cyffredinol ar gyfer ysgolion. Mae llywodraethwyr ysgolion yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar sefyllfaoedd cyllid ysgolion. Mae ysgolion yn cael eu cefnogi i ddatblygu a monitro cyllidebau ysgolion unigol gan y tîm cyllid canolog.
Mae bygythiad i barhad busnes os na all y Cyngor gaffael a gweithredu systemau TGCh mawr sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol megis system newydd ar gyfer y Gofal (WCCIS) a system Capita One ar gyfer Addysg.	Yn maes gofal cymdeithasol, bydd y methiant i gaffael a gweithredu system newydd erbyn Ionawr 2026 yn arwain at y Cyngor yn gorfod dibynnu ar gronfa ddata heb ei chefnogi neu ateb dros dro cymhleth. Nid yw gweithredu gwasanaethau rheoli achosion gofal cymdeithasol a diogelu heb system weithredol yn opsiwn sy'n ddiogel nac yn ymarferol. Heb system, ni all y Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau diogelu statudol ac mae risg i fywyd plant ac oedolion sydd mewn perygl o fethu â gwneud hynny. Bydd system Capita One yn darparu un cofnod cynhwysfawr ar gyfer pob plentyn sy'n cefnogi'r Cyngor i reoli addysg yn effeithlon trwy gysylltu data yn ddiogel gan arwain at benderfyniadau mwy gwybodus ac ymyrraeth gynnar.	Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r: - Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a rhaglen genedlaethol i ddatblygu dull cenedlaethol o gynllunio wrth gefn, strategaeth gaffael, mudo data ac adnoddau sgorio gan Lywodraeth Cymru drwy achos busnes clir - Mae Cynghorau Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg a Bro Morgannwg wedi ffurfio consortiwm rhanbarthol i reoli gwerthuso a gweithredu cyflenwr newydd. - Bydd dull cenedlaethol neu ranbarthol o gaffael yn galluogi gwell rheolaeth ar y farchnad a dylai sicrhau gwell gwerth am arian - Mae tîm rhanbarthol WCCIS yn darparu rhywfaint o gapasiti i gefnogi newid system - Mae'r Cyngor wedi ffurfio grŵp traws-gyfarwyddiaeth i ddarparu llywodraethiant o fewn y Cyngor. Mae addysg yn gweithio gydag ysgolion a'r gwasanaeth TGCh i

		weithredu'r system newydd.
--	--	----------------------------

Rhaglen Ddatgarboneiddio

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Yn dilyn hyn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr adroddiad a nododd y rôl hanfodol sydd gan y Cyngor i'w chwarae drwy reoli ei adnoddau, sefydliadau a'i fusnesau ei hun a chyhoeddodd y Cyngor ei argyfwng hinsawdd ei hun ym mis Mehefin 2020. Cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Garbon Sero Net y Cyngor 2030 ar 13 Rhagfyr 2022. Mae'r Strategaeth yn cynnwys chwe cham blaenoriaeth sydd â'r nod o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y sefydliad i gyflawni sefyllfa sero net erbyn 1 Ebrill 2030. Mae'r Cynlluniau Gweithredu yn cynnwys rheoli carbon, adeiladau, trafndiaeth, caffael, defnydd tir a gwastraff. Bydd y strategaeth hon yn rhan annatod o Gynllun Corfforaethol y Cyngor, tra bydd polisïau, strategaethau a chynlluniau parhaus i gyd yn adlewyrchu'r ymrwymiad i Sero Net. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn cael ei gofreiddio'n llawn ar draws y sefydliad. Adolygwyd y strategaeth Sero Net yn 2024 a bydd fersiwn wedi'i diweddarau yn cael ei chyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2025. Er bod y Cyngor wedi cytuno ar ddyraniad cyfalaf o £0.4 miliwn i 2024-25 a £0.15 miliwn yn flynyddol o 2025-26 i 2030-31, bydd lefel yr adnoddau i gyflawni'r strategaeth yn sylweddol fwy na hyn ac, oherwydd cyfyngiadau ariannol, efallai y bydd yn anodd cyflawni uchelgais y Cyngor i gyflawni Sero Net 2030.

Mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu cynlluniau, gan gynnwys:

- Goleuadau LED effeithlon o ran ynni mewn 17 o adeiladau, gan gynnwys Swyddfeydd Dinesig y Cyngor .
- Pwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled y Fwrdeistref.
- Amnewid tua 15% o fflyd cerbydau BCBC gyda cherbydau trydan batri.
- Mae rhaglen Re:fit y Cyngor, sydd wedi'i chynnal mewn partneriaeth â'r arbenigwyr ynni Ameresco, wedi gweld ysgolion ac adeiladau cyhoeddus wedi'u gosod ag amrywiaeth o fesurau gan gynnwys goleuadau LED, rheolyddion goleuadau, Systemau Rheoli Adeiladau a systemau solar ffotofoltaidd.
- Lefelau inswleiddio gwell ar adeiladau'r Cyngor
- Amnewid boeleri nwy gyda phympiau gwres ffynhonnell aer a gosod paneli solar ffotofoltaidd mewn dau o adeiladau'r Cyngor – Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr a Chartref Preswyl Bryn-y-Cae.
- Gosod paneli solar ffotofoltaidd ar y to a storfa fatri wedi'i gosod ar y ddaear yn Nepo Bryncethin er mwyn lleihau costau trydan a lleihau allyriadau carbon.

Cyfleodd yn y dyfodol

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio tuag at gyflawni carbon sero net ac mae wedi sicrhau cyllid i frwr ymlaen â'r cynlluniau canlynol:

- Systemau solar ffotofoltaidd ar 9 adeilad nad ydynt yn ysgolion
- Amnewid systemau gwresogi trydan uniongyrchol gyda phympiau gwres ffynhonnell aer mwy effeithlon
- Gosod pwmp gwres i ddarparu dŵr poeth yn y Swyddfeydd Dinesig

Perfformiad Ariannol


Incwm a Gwariant

Mae'r Cyngor yn derbyn cyllid o dair prif ffynhonnell:

- Grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys cyllid craidd Llywodraeth Cymru i'r Cyngor, y Grant Cymorth Refeniw (RSG);
- y Dreth Gyngor; a'i
- gyfran o ardrethi busnes (annomestig)

Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu incwm o ffioedd a thaliadau am wasanaethau y mae'n eu darparu. Mae'r siartiau isod yn dangos y cyllid a dderbyniwyd yn 2024-25 a sut y cafodd ei wario ar wasanaethau a gwariant arall, sy'n cynnwys praeseptau ac ardollau a llog sy'n daladwy. Y gwahaniaeth o £0.086 miliwn yw'r gwarged ar ddarparu

gwasanaethau fel y dangosir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.




Allbwn refeniw

Ym mis Chwefror 2024, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net o £359.725 miliwn yn seiliedig ar y setliad llywodraeth leol dros dro a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad terfynol ar 27 Chwefror 2024 a oedd yn cynnwys cynnydd yn y Grant Cymorth Refeniw i'r Cyngor o £0.650 miliwn ynghyd â thri grant yn cael eu trosglwyddo (£0.297 miliwn) i'r setliad terfynol, gan arwain at gyllideb net o £360.671 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Mae'r gyllideb refeniw yn dangos cost flynyddol cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyngor i'r gymuned, y mae llawer ohonynt wedi'u darparu o dan statud. Mae cyllideb refeniw flynyddol y Cyngor yn cwmpasu costau rhedeg dyddiol y Cyngor gan gynnwys staff, casglu gwastraff, ysgolion, gweithwyr gofal, gofalwyr maeth a gwasanaethau hamdden. Yr alldro refeniw terfynol ar gyfer y Cyngor, ac eithrio Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, oedd tanwariant net o £0.278 miliwn sydd wedi'i drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor, gan adael Cronfa'r Cyngor ar £10.008 miliwn ar 31 Mawrth 2025. Dangosir y safle alldro isod.

Cyfarwyddiaeth	Cyl lideb Net £23.3 miliwn	Gwariant Net £23.3 miliwn	(Tanwar iant)/Gorw ariant £23.3 miliwn	(Tanwarian t)/Gorwari ant %
Prif Weithredwyr	23.578	25.492	1.914	8.1%
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles	109.463	109.952	0.489	0.4%
Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc	148.823	148.477	(0.346)	(0.2)%
Cymunedau	33.271	33.611	0.340	1.0%
Gwasanaethau ar draws y Cyngor a throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	45.536	43.473	(2.063)	(4.5)%
Is-gyfanswm allbwn	360.671	361.005	0.334	0.0%
Cyllid ac Ariannu		(361.283)	(0.612)	(0.2)%
Cyfanswm allbwn y Cyngor	-	(0.278)	(0.278)	0.00%

Dangosir cyllideb net a gwariant net y Cyngor yn ôl Cyfarwyddiaeth yn y tabl isod.




Derbyniodd y Cyngor Grant Cymorth Refeniw gan Lywodraeth Cymru o £205.953 miliwn. Roedd yr Ardrethi Annomestig net (NDR) y gellid eu casglu ar ran Llywodraeth Cymru gan y Cyngor am y flwyddyn yn £45.043 miliwn. Cyfran y Cyngor o'r NDR a oedd yn ddyledus am y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru oedd £52.972 miliwn.

Mae 2024-25 wedi bod yn flwyddyn gymhleth i gyllid y cyngor. Gwnaeth y Cyngor ychwanegiadau/aiddosbarthiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer refeniw o £17.685 miliwn ac fe dynnwyd i lawr neu ddad-ddirwynwyd £13.811 miliwn, cynnydd net mewn cronfeydd wrth gefn o £3.874 miliwn. Cynyddodd Cronfa'r Cyngor £0.278 miliwn i £10.008 miliwn. Mae adroddiad alldro'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i'w weld ar wefan y Cyngor [yma](#). Y gwahaniaeth rhwng yr adroddiad alldro o £0.300 miliwn a'r uchod yw addasiad ôl-archwilio o £0.022 miliwn sy'n ymwneud â chostau cronedig sy'n gysylltiedig â chyflogau.

Gwariant Cyfalaf a Chyllid

Mae buddsoddiad cyfalaf yn ffurfio rhan fawr o wariant y Cyngor. Roedd rhaglen gyfalaf wreiddiol y Cyngor ar gyfer 2024-25, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2024, yn £66.058 miliwn.

Mae addasiadau cyllidebol yn digwydd yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu cynlluniau newydd a ychwanegir at y Rhaglen Gyfalaf, dileu neu leihau cynlluniau a llithro cynlluniau i flynyddoedd i ddod. Y gyllideb derfynol a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn oedd £58.381 miliwn a'r cyfanswm gwariant oedd £29.331 miliwn. O'r amrywiant isod, bydd £27.265 miliwn yn cael ei lithro i flynyddoedd y dyfodol.



Cyfarwyddiaeth	Cyllideb wreiddiol a gymeradwywyd £'000	Cyllideb ddiwygiedig £'000	Alldro £'000	Amrywiant (Islaw)/ dros £'000
Addysg, Blynnyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc	18,895	19,221	8,079	(11,142)
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles	839	926	451	(475)
Cymunedau	39,499	31,252	16,447	(14,805)
Prif Weithredwyr	5,830	5,921	4,354	(1,567)
Corfforaethol/heb ei ddyrannu	995	1,061	-	(1,061)
CYFANSWM	66,058	58,381	29,331	(29,050)

Mae cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn yn cynrychioli 50% o'r rhaglen gyfalaf derfynol a gymeradwywyd, ac roedd y prosiectau allweddol yn cynnwys:


- Neuadd y Dref Maesteg
- Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Estyniad Ystafelloedd Dosbarth Ysgol Gyfun Bryntirion
- Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl
- Metrolink Porthcawl
- Mannau Chwarae Cymunedol
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer addasiadau i gartrefi pobl i gefnogi unigolion i barhau i fyw gartref.

Y gyllideb ddiwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn oedd £58.381 miliwn. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £27,265 o'r gwariant a ragfynegydd wedi'i symud i 2025-26. Mae'r prif feysydd lle mae llithriant fel a ganlyn:


- Rhaglen moderneiddio ysgolion gwerth £6.323 miliwn. Mae hyn yn cynnwys ysgolion newydd, estyniad i ysgolion presennol yn ogystal â gwaith priffyrdd cysylltiedig.
- Grant Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion o £3.061 miliwn. Bu nifer o oediadau ar y prosiectau unigol o fewn y cynllun oherwydd problemau capasiti. Yn ogystal â hynny, dyfarnwyd grant ychwanegol o £0.73 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2025.
- £2.827 miliwn yn gysylltiedig â gwaith seilwaith ym Mhorthcawl sy'n amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Meistr datblygu ar gyfer yr ardal.
- £2.570 miliwn ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau gwaith bach ar draws Cyfarwyddiaethau y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn ystod 2025-26.
- £1.268 miliwn Cyfnod 1 CESP/Arbed. Mae gwaith adferol yn mynd rhagddo gyda gwaith yn parhau ym mhob cartref sydd wedi cofrestru ar y cynllun i gael gwared ar yr holl ddeunydd inswleiddio gwreiddiol. Mae gosod deunydd inswleiddio newydd neu rendr sment wedi cael ei ohirio gan fod waliau wedi cymryd mwy o amser i sychu nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, ac felly mae'r cynllun cyflawni wedi'i ddiwygio a'r gwariant wedi'i ohirio.
- £0.989 miliwn ar gyfer Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl. Roedd y broses dendro gychwynnol yn aflwyddiannus oherwydd costau ac roedd proses dendro bellach yn llwyddiannus gan arwain at ddyfarnu'r prif contract adeiladu yn hwyrach na'r disgwyl.
- Mae £1.332 miliwn wedi'i lithro i 2025-26 ar gyfer digartrefedd, tai a thai fforddiadwy. Prynwyd un eiddo yn ystod y flwyddyn ac mae gweddill y cyllid wedi'i drosglwyddo i'r flwyddyn nesaf i gefnogi prynu eiddo pellach, gyda dau yn cael eu hasesu ar ddiwedd y flwyddyn i weld a ydynt yn addas ar gyfer y cynllun.
- £0.771 miliwn ar gyfer gwasanaethau fflyd oherwydd bod y gwaith o gludo tri cherbyd wedi'i ohirio tan 2025-26. Cludwyd un cerbyd ailgylchu ym mis Ebrill 2025 a disgwylir dau gerbyd priffyrdd erbyn mis Medi.

Caiff gwariant cyfalaf ei fonitro'n rheolaidd ac adroddir ar ddiweddariadau i'r Cabinet a'r Cyngor bob chwarter, mae recordiadau ac adroddiadau'r cyfarfodydd ar gael ar ryngwryd y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn talu am ei wariant cyfalaf o nifer o ffynonellau. Rhoddodd setliad cyfalaf llywodraeth leol ar gyfer 2024-25 y canlynol i'r Cyngor: £7.980 miliwn o gyllid cyfalaf, y bu £3.937 miliwn ohono yn arian benthyca â chymorth a £4.043 miliwn yn grant cyfalaf. Dangosir dadansoddiad o'r cyllid cyfalaf i'r dde.



Gelwir gwariant cyfalaf a gafwyd yn hanesyddol drwy fenthyca, ond i'w dalu o refferni neu incwm cyfalaf yn y dyfodol, yn Ofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Dangosir y CFR dros y 7 mlynedd diwethaf isod gyda'r llinell ddotiog yn cynrychioli'r duedd dros y cyfnod hwnnw.



Isafswm Darpariaeth Refeniw

Mae symiau refeniw yn cael eu neilltuo bob blwyddyn i ad-dalu'r benthyciad a elwir yn Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) ac yn cael eu neilltuo dros gyfnod o 45 mlynedd yn unol â'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw. Yn ystod y flwyddyn, newidiodd y Cyngor y ffordd y mae'n cyfrifo'r MRP o ddull llinell syth i ddull blwydd-dal. O'i gymharu â'r dull llinell syth, mae'r dull blwydd-dal yn golygu bod llai o MRP yn cael ei wneud mewn blynyddoedd cynharach a mwy yn cael ei wneud mewn blynyddoedd diweddarach. Fodd bynnag, mae strwythur blwydd-dal MRP, o'i gyfuno â chostau llog, yn arwain at broffil costau llyfnach. Mae hefyd yn ystyried gwerth amser arian, lle mae talu £1,000 ymhen blwyddyn yn llai o faich na thalu £1,000 nawr. Ystyrir bod y dull blwydd-dal yn fwy doeth gan ei fod yn paru'r budd o'r asedau â'r gost dros amser. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [adroddiad y Cyngor](#).


Asedau a Rhwymedigaethau

Mae'r fantolen yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn adrodd ar asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor, sy'n dangos faint mae'r Cyngor yn berchen arno a faint sy'n ddyledus ganddo. Mae asedau net y Cyngor wedi cynyddu £64.800 miliwn o £607.437 miliwn ar 31 Mawrth 2024 i £672.237 miliwn ar 31 Mawrth 2025.

Dangosir y symudiadau allweddol dros y flwyddyn isod:

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	Symudiad £'000
Yr hyn sy'n eiddo i ni – asedau	807,386	877,348	69,962
Yr hyn sy'n ddyledus gennym – rhwymedigaethau	(199,584)	(205,111)	(5,527)
Sefyllfa ariannol net – asedau heb rhwymedigaethau	607,802	672,237	64,435
<i>Mae'r sefyllfa ariannol net wedi'i dal mewn cronfeydd wrth gefn fel a ganlyn:</i>			
Cronfeydd wrth gefn cyffredinol a gedwir gan y Cyngor, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd – cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	104,020	117,608	13,588
Cronfeydd wrth gefn eraill a gedwir at ddibenion statudol neu benodol – cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	503,782	554,629	50,847
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn	607,802	672,237	64,435

Gellir defnyddio asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor i ddangos 'gwerth net', fel yn y siart isod. Mae'r gostyngiad mawr mewn rhwymedigaethau yn ymwneud yn bennaf â rhwymedigaeth y gronfa bensiwn, a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad.



Asedau Tymor Hir

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbrisio ar gylchdro o 3 blynedd. Mae hwn yn gyfnod byrrach nag y mae 'Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn ei awgrymu, ond mae'n galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y gwerthoedd a gofnodwyd yn y cyfrifon yn gywir yn sylweddol. Mae prisio asedau yn cynnwys nifer o dybiaethau, fodd bynnag nid oes gan symudiadau yng ngwerthoedd asedau yn ogystal â thaliadau cyfrifyddu fel dibrisiant unrhyw effaith ar y dreth gyngor, gan fod angen gwrthdroi'r taliadau hyn o gronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio. Mae manylion y symudiadau mewn asedau, gwariant cyfalaf a'i gyllid wedi'u cynnwys yn nodyn 21.

- Roedd yr asedau a ailbrisiwyd yn ystod 2024-25 fel rhan o raglen dreigl y Cyngor yn cynnwys ysgolion, canolfannau mentergarwch a busnes, depos, canolfannau chwaraeon, canolfannau gofal dydd a chyfleusterau cyhoeddus.
- Caiff eiddo buddsoddi, asedau dros ben ac asedau a gedwir i'w gwerthu eu hailbrisio'n flynyddol.

Asedau a rhwymedigaethau tymor byr

Mae asedau tymor byr yn cynnwys buddsoddiadau a wneir yn unol â'r [Strategaeth Rheoli'r Trysorlys](#) a gymeradwywyd, i gefnogi anghenion llif arian tymor byr y Cyngor. Cyfanswm y buddsoddiadau a'r balansau arian parod a gedwir at ddibenion Rheoli'r Trysorlys oedd £36.75 miliwn ar 31 Mawrth 2025 ac yn bennaf balansau arian parod dros dro a adnewyd gyda sefydliadau ariannol a Swyddfa Rheoli Dyled y Llywodraeth Ganolog ydyw. Y gyfradd llog gyfartalog a enillwyd am y flynyddyn oedd 4.81%.

Benthycia

Mae gan y Cyngor fenthyciadau tymor hir heb eu talu ar 31 Mawrth 2025 o £96.130 miliwn gan gynnwys ei gyfran o fenthyciadau tymor hir Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) o £0.944 miliwn. Mae benthyciad y Cyngor o £95.186 miliwn yn gymysgedd o fenthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) o £73.328 miliwn, Opsiwn y Rhoddwr Benthyciadau Opsiynau'r Benthyciwr (LOBOs) o £19.736 miliwn, a £2.12 miliwn o fenthyciadau Salix i ariannu gwariant cyfalaf. Darperir rhagor o fanylion mewn perthynas â benthycia yn nodyn 31. Dylid gweld y benthycia yng nghyd-destun cyfanswm gwerth asedau tymor hir y Cyngor, a ddangosir yn y Fantolen ar £750 miliwn. Caniateir benthycia yn unol â Chod Darbodus CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol cyn belled â bod modd, ym marn y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, talu'r costau referniw a'u bod yn unol â dangosyddion a chanllawiau darbodus. Os bydd y cyfle'n codi i'r Cyngor ad-dalu ei LOBOs er budd i'r Cyngor, yna bydd yn ceisio gwneud hynny.

Codi dyled i ariannu buddsoddiad y Cyngor

Mae gan y Cyngor ofyniad benthycia sy'n deillio o raglenni cyfalaf y blynyddoedd cyfredol a'r blynyddoedd diwethaf. Caiff hyn ei gyflawni drwy gymysgedd o fenthycia tymor hir a thymor byr, y gall y gweddill ohonynt amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynol ar aeddfedrwydd buddsoddiadau a dyledion ac amodau'r farchnad. Bydd penderfyniadau a wneir ar fenthycia hefyd yn effeithio ar lefelau buddsoddi. Gall cynghorau fenthycia i fuddsoddi mewn eiddo, peiriannau neu offer neu seilwaith arall sy'n cefnogi

darpariaeth gwasanaethau, ond rhaid iddynt sicrhau y gallant ad-dalu'r swm hwn. Mae'r Cyngor yn nodi ei ddull gweithredu o ran benthycia a buddsoddi yn ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol, a gymeradwywyd gan y Cyngor cyn pob blwyddyn ariannol, ac a fonitirir drwy gydol y flwyddyn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda chynghorwr rheoli'r trysorlys allanol yn ôl yr angen. Cymerodd y Cyngor fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn o £10 miliwn, £5 miliwn tymor byr (hyd 3 mis) a £5 miliwn am 16 mis. Ad-dalwyd benthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) o £5.580 miliwn yn 2024-25.

Rhwymedigaethau Pensiynau: £5.84 miliwn

Mae gofynion Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (IAS19) mewn perthynas â budd-daliadau ôl-gyflogaeth – h.y., pensiynau, wedi'u hymgorffori'n llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gydag enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall, fel yr eglurir yn fanwl yn nodyn 30. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn gynllun budd-daliadau diffiniedig a rienir gyda budd-daliadau a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn gysylltiedig â chyflog terfynol. Mae budd-daliadau ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbriso (CARE). Mae'r Cyngor yn rhan o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Caiff y gronfa ei hailbriso bob 3 blynedd gan gwmni annibynnol o actiwariaid. Y gwerthusiad diwethaf o'r gronfa bensiwn oedd 31 Mawrth 2025, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2026.

Mae cronfa bensiynau a rhwymedigaeth pensiwn wedi'u hymgorffori yng nghyfrifon y Cyngor, gan adlewyrchu'r swm y mae elfen Pen-y-bont ar Ogwr o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'i thanariannu o'i gymharu â'r rhwymedigaethau talu a aseswyd i bensiwnwyr nawr ac yn y dyfodol. Y gost i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn oedd £22.74 miliwn. Roedd rhwymedigaeth pensiynau gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn £5.84 miliwn, gostyngiad o £0.900 miliwn o 31 Mawrth 2024 pan oedd y rhwymedigaeth yn £6.74 miliwn. Mae hyn yn ystyried yr atebolrwydd sylfaenol yn dilyn rhwymedi McCloud a chanlyniad achos McCloud/Sargeant bod effaith y trefniadau amddiffyn trosiannol a roddwyd ar waith pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a barnwyr yn gwahaniaethu ar sail oedran.

Ym mis Mehefin 2023, canfu'r Uchel Lys yn achos Virgin Media fod newidiadau i fudd-daliadau aelodau mewn cynlluniau pensiwn budd-daliadau diffiniedig wedi'u contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrif actiwaraidd yn unol ag Adran 37 o Ddeddf Pensiynau 1993, a bod newidiadau heb yr ardystiad hwn i'w hystyried yn ddi-rym. Rhagwelir na fydd unrhyw newidiadau i rhwymedigaethau pensiwn o ganlyniad i'r achos hwn i'r Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Nodyn 30 i'r cyfrifon.


Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cynrychioli gwerth net y Cyngor ac maent wedi'u rhannu'n symiau y gellir eu defnyddio a'n symiau na ellir eu defnyddio. **Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** yw symiau o arian a neilltuwyd at ddibenion penodol neu ar gyfer cynlluniau wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian. Mae eu defnyddio, eu creu a'u hasesu o ran digonolrwydd hefyd yn ystyried risgiau i wydnwch ariannol. Mae'r sefyllfa tanwariant net o £13.341 miliwn wedi galluogi sefydlu cronfeydd wrth gefn newydd net o £13.063 miliwn yn 2024-25 ynghyd â throsglwyddiad o £0.278 miliwn i Gronfa'r Cyngor. Mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd wrth gefn eraill y gellir eu defnyddio wedi'u manylu yn nodyn 28 y cyfrifon, tra bod cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio wedi'u dangos yn nodyn 29.

Mae cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio wedi cynyddu o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth asedau yn y flwyddyn gyfredol (£57.6 miliwn) a gostyngiad yn rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn (£0.9 miliwn). Gan na ellir defnyddio'r rhain, maent yn cynrychioli addasiadau cyfrifyddu yn hytrach na llifau arian parod gwirioneddol.

Mynd i'r afael â heriau'r dyfodol

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth symud ymlaen. Mae ganddo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig



(MTFS) ar waith a gymeradwywyd gan y Cyngor sy'n dangos yr arbedion gofynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf ac arbedion dangosol ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Y risgiau ariannol tymor canolig allweddol sy'n wynebu'r Cyngor yw:

- Twf poblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio, cyfraddau dementia cynyddol a nifer cynyddol o bobl ifanc ag anableddau cymhleth yn byw i fod yn oedolion.
- Niferoedd uchel o blant mewn gofal a'r pwysau sylweddol ar wasanaethau ac arian o fewn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant, yn ogystal ag effaith ariannol newidiadau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru megis dileu elw o ofal cymdeithasol plant.
- Tai, yn enwedig dyletswyddau atal digartrefedd a chyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu digartrefedd.
- Diogelu sefyllfa ariannol y Cyngor. Er bod gan y Cyngor gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2024-25 a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar waith ar gyfer y cyfnod 2025-26 i 2028-29, mae lefel yr arbedion disgwyledig y bydd angen i'r Cyngor eu gwneud dros y cyfnod hwnnw yn sylweddol. Nid yw pob targed cynilo ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi'i ddatblygu'n llawn, a bydd angen i'r Cyngor sicrhau y gall gyrraedd y targedau hynny, gan edrych ar ffyrdd o wella effeithlonrwydd drwy ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.
- Alldro'r Cyngor ar gyfer 2024-25 yw tanwariant o £13.341 miliwn cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o £13.063 miliwn. Roedd hyn oherwydd nifer o ffactorau, sef derbyn Grantiau Llywodraeth Cymru annisgwyl, cynilion yn deillio o newidiadau i'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw, a pheidio â gorfod defnyddio'r gyllideb a ymgorfforwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig tuag at bwysau cyllidebol sy'n dod i'r amlwg ac fel rhagofal yn erbyn methiant i gyflawni cynigion lleihau cyllidebau. Eitemau untro yw'r rhain nad ydynt yn debygol o ddigwydd eto yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r rhagolygon economaidd yn parhau i fod yn heriol i Awdurdodau Lleol.

Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cynyddol ar ei gyllideb, cymeradwydd gyllideb gytbwys ar gyfer 2025-

26 ar 26 Chwefror 2025. Bydd yr hinsawdd economaidd ansicr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau a'i gyllidebau'n barhaus.

Y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau o Gyfrifon wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon, ac mae'n cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:

Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon

Mae hyn yn nodi cyfrifoldebau priodol y Cyngor a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)

Mae hyn yn cofnodi incwm a gwariant y Cyngor yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae cynghorau'n codi trethi i gwmpasu gwariant yn unol â gofynion statudol, a all fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethiant yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS)

Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i ddiwedd y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio' - y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant - a chronfeydd wrth gefn 'na ellir eu defnyddio', y mae'n rhaid eu neilltuo at ddibenion penodol. Byddai cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu (megis y Gronfa Ailbrisio), lle byddai symiau ar gael dim ond os gwerthir yr asedau, a chronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu 'addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a chyllid o dan reoliadau'. Mae'r gwarged neu'r diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos cost economaidd wirioneddol darparu gwasanaethau'r Cyngor, y dangosir mwy o fanylion amdanynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor at ddibenion gosod trethi'r cyngor. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau balans statudol Cronfa'r Cyngor yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny.

Mantolen

Mae hyn yn cofnodi ciplun o asedau, rhwymedigaethau, balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddyddiad diwedd y flwyddyn. Mae asedau net y Cyngor (asedau yn hytrach na rhwymedigaethau) yn cael eu cyfateb â'r cronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Cyngor.

Datganiad Llif Arian Parod

Mae'r Datganiad Llif Arian Parod yn dangos y rheswm dros newidiadau yn arian parod ac arian cyfwerth y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac arian cyfwerth drwy ddosbarthu llif arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu hariannu drwy drethi ac incwm grantiau neu gan dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae all-lifau arian parod wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae llifau arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld hawliadau ar lifau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Cyngor.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Mae'r rhain yn nodi'r Polisiâu Cyfrifyddu a fabwysiadwyd ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a'r datgeliadau sy'n ymwneud â'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys datgeliadau pensiynau ac offerynnau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid sy'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, ffioedd a thaliadau, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan y Cyngor o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Cyngor yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Cyfarwyddiaethau'r Cyngor a meysydd y Cyngor cyfan. Cyflwynir incwm a gwariant a gyfrifir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi strwythurau llywodraethu'r Cyngor a'i reolaethau mewnol allweddol.

Y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

30 Hydref 2025

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid

Mae'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor yn unol ag arferion priodol fel y'u nodir yng *Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- gwneud barnau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth
- yn cydymffurfio â Chod yr awdurdod lleol.

Mae'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Tystysgrif y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid

Rwy'n ardystio bod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

30 Hydref 2025



Datganiadau Ariannol

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2023-24					2024-25				Nodiadau
Gwariant Gros £'000	Grant iau'r Llywo draeth £'000	Incwm Arall £'000	Gwariant Net £'000		Gwariant Gros £'000	Grant iau'r Llywo draeth £'000	Incwm Arall £'000	Gwariant Net £'000	
206,960	(40,024)	(7,863)	159,073	Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc	219,098	(49,086)	(8,067)	161,945	
156,544	(11,811)	(24,060)	120,673	Gwasanaethau	160,120	(16,531)	(26,296)	117,293	
65,948	(10,019)	(7,545)	48,384	Cymdeithasol a Lles	70,665	(18,832)	(7,381)	44,452	
77,560	(46,761)	(2,426)	28,373	Cymunedau	75,104	(44,977)	(2,547)	27,580	
21,154	(669)	(901)	19,584	Prif Weithredwyr	22,430	(2,592)	25	19,863	
				Gwasanaethau Cyngor Cyfan					
125	(38)	(100)	(13)	Bargen Ddinesig	2,384	-	(621)	1,763	
				Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD)					
528,291	(109,322)	(42,895)	376,074	Cost Gwasanaethau	549,801	(132,018)	(44,887)	372,896	
				Gwariant Gweithredu Arall					
20,746			20,746	Praeseptau sy'n daladwy	22,749			22,749	7
9,181			9,181	Ardollau sy'n daladwy	9,680	(131)		9,549	7
459			459	(Enillion) / colled wrth waredu asedau anghyfredol			(490)	(490)	
				CCRCD (Enillion) / colled ar waredu asedau anghyfredol	95			95	
30,386	-	-	30,386	Gwariant Gweithredu Arall	32,524	(131)	(490)	31,903	
				Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi					
4,851			4,851	Llog sy'n daladwy ar ddyled	4,963			4,963	31
11			11	Elfen llog lesau cyllid (lesddeiliad)	191			191	31
1,018			1,018	Llog sy'n daladwy ar daliadau	946			946	13
				unedol PFI			(220)		
1,190			1,190	Llog Net ar Atebolrwydd Budd-daliadau			(4,771)	(220)	30
		(5,108)	(5,108)	Diffiniedig Net				(4,771)	31
				Incwm ar Fuddsoddiad a Llog Derbyniadwy Arall					
855			855	Newidiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	100			100	22
				Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg CCRCD	36		(571)	36	
				Llog ac Incwm ar Fuddsoddiad				(571)	
				CCRCD					
				Newid yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi	130			130	
				CCRCD					
7,925	-	(5,108)	2,817	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	6,366	-	(5,562)	804	
				Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol					
	(202,556)		(202,556)	Grant Cynnal Refeniw		(205,953)	-	(205,953)	8
		(47,626)	(47,626)	Ardrethi Annomestig			(52,972)	(52,972)	9
		(114,405)	(114,405)	Cenedlaethol			(125,107)	(125,107)	10
	(10,871)		(10,871)	Y Dreth Gyngor		(18,933)		(18,933)	11
				Grantiau a chyfraniadau cyfalaf cydnabyddedig					

				Grantiau llywodraeth nad ydynt yn gysylltiedig â gwasanaethau		(758)	(67)	(67)	
				Grantiau a chyfraniadau referiw cydnabyddedig CCRC				(758)	
	38		38	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf cydnabyddedig CCRC		(4,788)		(4,788)	
		19	19	Treuliau Treth CCRC	34			34	
-	(213,389)	(162,012)	(375,401)	Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol	34	(230,432)	(178,146)	(408,544)	
566,602	(322,711)	(210,015)	33,876	(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	588,725	(362,581)	(229,085)	(2,941)	
		(45,926)	(45,926)	(Gwarged) neu ddiffyg ar ailbriso Eiddo, Offer a Pheiriannau			(68,521)	(68,521)	29a
5,330			5,330	Colledion amhariad ar asedau anghyfredol a godir ar y Gronfa Ailbriso	6,023			6,023	29a
		(30,070)	(30,070)	Enillion/colledion actiwaraid ar rwymedigaethau pensiwn	1,430			1,430	30
		(408)	(408)	Newid yng ngwerth teg buddsoddiadau ecwiti – CCRC					
				(Gwarged) / diffyg ar ailbriso asedau offerynnau ariannol – CCRC	1,551			1,551	
			(71,074)	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall				(59,517)	
			(37,198)	Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr				(62,458)	

Datganiad Symudiad mewn

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	Cronfeydd wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwysio	CCRCD Cronfeydd wrth gefn y gallir eu defnyddio	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gallir eu defnyddio	CCRCD Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	Cronfeydd Wrth Gefn Na ellir eu Defnyddio gan y Cyngor Wedi'u Hailddatgan	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Hailddatgan y Cyngor
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen	9,832	92,496	25,728	4,511	2,160	134,727	5,284	430,593	570,604
<u>Symudiad mewn Cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023-24</u>									
(Gwarged)/diffyg arddarparu gwasanaethau	(33,833)				(44)	(33,876)	410	70,664	37,200
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau (Nodyn 20)	5,232		257	(2,356)	38	3,169	(38)	(3,134)	(3)
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd (Nodyn 28)	28,499	(28,499)							
Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2023-24	(102)	(28,498)	257	(2,356)	(6)	(30,707)	372	67,530	37,197
Balans ar 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen	9,730	63,998	25,985	2,155	2,154	104,020	5,656	498,123	607,801

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	Cronfeydd wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf Heb eu cymhwyso	CCRCD Cronfeydd wrth gefn y gallir eu defnyddio	Cyfanswm y gallir eu ddefnyddio Cronfeydd wrth gefn	CCRCD Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	Cronfeydd Wrth Gefn Na ellir eu Defnyddio gan y Cyngor	Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn y Cyngor
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen	9,730	63,998	25,985	2,155	2,154	104,020	5,656	498,123	607,801
Addasiad talgrynnu		(2)						3	1
Addasiad i falansau a ddygwyd ymlaen			2			2	1,980		1,982
<u>Symudiad mewn Cronfeydd wrth gefn yn ystod 2024-25</u>									
(Gwarged)/diffyg arddarparu gwasanaethau	(1,118)				4,059	2,941	(1,551)	61,063	62,453
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau (Nodyn 20)	5,269		6,036	3,568	(4,228)	10,645	4,228	(14,873)	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(3,873)	3,873							

DATGANIAD O GYFRIFON 2024-25								2024-2025	
(Nodyn 28)									
Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2024-25	278	3,873	6,036	3,568	(169)	13,588	4,657	46,190	64,435
Balans ar 31 Mawrth 2025 a ddygwyd ymlaen	10,008	67,871	32,021	5,723	1,985	117,608	10,313	544,316	672,237

Mae'r ailddatganiad uchod i ddangos cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio'r Cyngor ac eithrio cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio CCRCD

Mantolen

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000	Nodia d...
679,344	Eiddo, Peiriannau ac Offer	731,094	21c/12
220	Asedau Treftadaeth	220	
4,990	Eiddo Buddsoddi	4,890	22
6,003	Eiddo Buddsoddi CCRCD	5,919	31
1,118	Ecwiti CCRCD	1,056	
946	Asedau Anniriaethol	472	21d
-	Buddsoddiadau Tymor Hir	-	31
1,529	Benthyciadau/Dyledwyr Tymor Hir CCRCD	4,851	
	Cynllun Pensiwn Budd-daliadau Diffiniedig CCRCD	246	
694,150	Asedau Tymor Hir	748,748	
45,027	Buddsoddiadau Tymor Byr	-	31
65	Asedau a gedwir i'w Gwerthu	375	24
1,013	Rhestrau Eiddo	799	
55,741	Dyledwyr Tymor Byr	83,451	23
63	Benthyciadau Tymor Byr CCRCD	191	
6,018	Arian Parod ac Arian Cyfwerth	36,879	31
4,854	Arian Parod ac Arian Cyfwerth CCRCD	531	31
170	Treth Gohiriedig CCRCD		
284	Asedau Ariannol CCRCD		31
	Buddsoddiadau Tymor Byr CCRCD	6,374	
113,236	Asedau cyfredol	128,600	
(618)	Gorddrafft banc	(2,664)	31
(13,636)	Benthycia Tymor Byr	(10,152)	31
(53,724)	Credydwy'r Tymor Byr	(58,692)	25
(638)	Darpariaethau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(517)	26
(68,617)	Rhwymedigaethau Cyfredol	(72,025)	
(6,404)	Darpariaethau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(3,453)	26
(94,120)	Benthycia Tymor Hir	(95,186)	31
	Benthycia Tymor Hir CCRCD	(944)	
	Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill		
(11,973)	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	(14,362)	27
(1,630)	Credydwy'r tymor hir (CCRCD)	(2,916)	27
(6,740)	Rhwymedigaeth Pensiynau Net	(5,840)	30
	Rhwymedigaethau Pensiynau CCRCD	(246)	
(10,100)	Derbyniadau Cyfalaf Ymlaen Llaw	(10,139)	21h
(130,967)	Rhwymedigaethau Tymor Hir	(133,086)	
607,802	Asedau Net	672,237	
	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio		
9,730	Cronfa'r Cyngor	10,008	28b
63,996	Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	67,871	28b
25,985	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	32,021	28a
2,155	Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso	5,723	21i
2,154	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio CCRCD	1,985	
	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio		
257,114	Cronfa Ailbrisio	310,685	29a
(6,740)	Cronfa Bensiynau	(5,840)	29b
257,836	Cyfrif Addasu Cyfalaf	254,657	29c
(666)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(655)	
(3,760)	Cyfrif Absenoldebau Digolledol Cronnol Byrdymor	(4,758)	
(2)	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio CCRCD	540	
607,802	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn	672,237	

Datganiad Llif Arian

2023-24 £'000		2024-25 £'000	
33,876	(Gwarged)/diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau	(2,941)	
(29,823)	Addasiadau i'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	(13,053)	34
11,128	Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu	31,649	
15,181	Llifau Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	15,655	35
17,345	Gweithgareddau Buddsoddi	(21,422)	36
(19,278)	Gweithgareddau Ariannu	(17,503)	37
13,248	(Cynnydd) / Gostyngiad Net mewn Arian Parod ac Arian Cyfwerth	(23,270)	
(23,786)	Arian Parod ac Arian Cyfwerth ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd	(10,538)	
	Addasiad CCRCD i'r balans arian parod agoriadol	(938)	
(10,538)	Arian Parod ac Arian Cyfwerth ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd	(34,746)	

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian parod ac arian cyfatebol y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac arian cyfwerth drwy ddosbarthu llif arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu.



Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Nodyn		Rhif Tudalen
1	Polisiâu Cyfrifyddu	31
2	Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu	43
3	Rhagdybiaethau a Wnaed am y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill o ansicrwydd amcangyfrifedig	43
4	Dadansoddiad Gwariant a Chyllid	45
5	Nodyn i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid	46
6	Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl Natur	48
	Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
7	Praeseptau ac Ardollau	49
8	Grant Cynnal Refeniw	49
9	Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)	49
10	Y Dreth Gyngor	49
11	Grantiau	50
12	Lesau	51
13	Menter Cyllid Preifat (PFI)	53
14	Trefniadau Cronfa Gyfun	54
15	Taliadau Cydnabyddiaeth Swyddogion	54
16	Lwfansau Aelodau	57
17	Costau Archwilio Allanol	57
18	Cyfranogiad mewn Cyd-bwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd	57
19	Trafodion Partïon Cysylltiedig	58
	Nodiadau i'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn	
20	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau	60
	Nodiadau i'r Fantolen	
21	Asedau Anghyfredol Net	63
22	Eiddo Buddsoddi	68
23	Dyledwyr Tymor Byr	68
24	Asedau a gedwir i'w Gwerthu	69
25	Credydwyr Tymor Byr	69
26	Darpariaethau	69
27	PFI a Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	70
28	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	70
29	Cronfeydd Wrth Gefn Na ellir eu Defnyddio	72
30	Rhwymedigaethau Pensiwn, datgeliadau IAS 19	74
31	Datgeliadau Offerynnau Ariannol	81
32	Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd	86
33	Rhwymedigaethau Dibynnol	86
	Nodiadau ar gyfer Llif Arian	
34	Addasiadau ar gyfer Symudiadau Arian Nad yw'n Arian Parod	87
35	Gweithgareddau Gweithredu	87
36	Gweithgareddau Buddsoddi	87
37	Gweithgareddau Ariannu	87

1. Polisiâu Cyfrifyddu

1.1 Egwyddorion cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad o Gyfrifon blyneddol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018, yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys y *Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod) 2024-25 a'r Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau 2024-25 a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu trwy ailbricio rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

1.2 Safonau sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu eto. Ar ddyddiad y fantolen, nid oes unrhyw safonau perthnasol newydd na gwelliannau i safonau presennol sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gan y Cod a fydd yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, darperir y manylion canlynol at ddibenion gwybodaeth.

Safon	Dyddiad effeithiol	Manylion pellach
IAS 21	01 Ionawr 2025	IAS 21 Effeithiau Newidiadau yng Nghyfradd Gyfnewid Dramor (Diffyg Cyfnewidiadwyedd) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae'r gwelliannau i IAS 21 yn egluro sut y dylai endid asesu a yw arian cyfred yn gyfnewidiadwy a sut y dylai bennu cyfradd gyfnewid ar unwaith pan nad yw cyfnewidiadwyedd yn bosibl, yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i ddeall effaith arian cyfred nad yw'n gyfnewidiadwy.
IFRS 17	01 Ionawr 2025	Cyhoeddwyd Contractau Yswiriant IFRS 17 ym mis Mai 2017. Mae IFRS 17 yn disodli IFRS 4 ac yn nodi egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant.
IAS 16 IAS 38	01 Ionawr 2025	Mae'r newidiadau i fesur asedau nad ydynt yn fuddsoddiad o fewn Cod 2025/26 yn cynnwys addasiadau a dehongliadau o IAS 16 Eiddo, Peiriannau ac Offer ac IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi tair proses ailbricio ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer gweithredol, mynegeo asedau diriaethol nad ydynt yn fuddsoddiad a gofyniad i bricio asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r dull cost hanesyddol. Mae gan y rhain yr un effaith â gofyn am newid mewn polisi cyfrifyddu oherwydd diwygiad i safonau, a fyddai fel arfer yn cael ei ddatgelu o dan IAS 8. Fodd bynnag, mae'r addasiadau hefyd yn cynnwys rhyddhad rhag gofynion IAS 8 yn dilyn newid mewn polisi cyfrifyddu fel y'i cadarnhawyd ym mharagraff 3.3.1.4 o God CIPFA.

1.3 Croniadau incwm a gwariant

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid dim ond pan wneir neu pan dderbynnir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo'r risgiau a'r gwobrau sylweddol sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth i'r prynwr ac mae'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Cyngor.
- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan all y Cyngor fesur canran cwblhau'r trafodiad yn ddibynadwy a phan fo'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Cyngor.

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'u defnydd, cânt eu cario fel rhestr eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr) fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Cyfrifir incwm buddsoddi a llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac yn daladwy ar fenthyciadau yn y drefn honno fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifau arian parod a bennir gan y contract.
- Lle mae refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Lle y gall dyledion fod wedi'u lleihau, caiff balans y dyledwyr ei ysgrifennu i lawr gan y gwahaniaeth rhwng y swm cario a llifau arian parod diwygiedig yn y dyfodol a chodir tâl am yr amhariad i refeniw.

1.4 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Dibynnol ac Asedau Dibynnol

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau lle mae digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai y bydd y Cyngor yn rhan o achos llys a allai, yn y pen draw, arwain at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir tâl ar ddarpariaethau fel treuliau i'r llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth ac fe'u mesurir ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau yn y pen draw, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a gariwyd yn y Fantolen. Adolygir setliadau amcangyfrifedig ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a lle mae'n llai na thebyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd bellach (neu y gwneir setliad is nag a ragwelwyd), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir i rywfaent o'r taliad neu'r taliad cyfan sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond os yw bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol.

Rhwymedigaethau Dibynnol

Mae rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor na fydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiad neu, fel arall, digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau dibynnol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r

cyfrifon. Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor na fydd ei fodolaeth ond yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiad neu, fel arall, digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Ni chydabyddir asedau dibynnol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

1.5 Cronfeydd wrth gefn

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i gwmpasu argyfyngau. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy ddyrannu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd gwariant i'w ariannu o gronfa wrth gefn yn cael ei achosi, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna, caiff y gronfa ei neilltuo'n ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oes tâl net yn erbyn y dreth gyngor am y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, budd-daliadau gweithwyr ac ymddeol ac maent yn gronfeydd wrth gefn 'Anfwriadol' fel y nodir yn Nodyn 29 i'r cyfrifon.

1.6 Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau neu mewn ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:

- bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau, a
- bydd y grant / cyfraniad yn cael ei dderbyn.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Mae amodau yn amodau sy'n nodi ei bod yn ofynnol i'r derbynnydd ddefnyddio'r buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased a gafwyd gan ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad fel y nodir, neu fod rhaid dychwelyd buddion economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddir ymlaen llaw fel grantiau a chyfraniadau nad yw amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer yn cael ei gario yn y Fantolen fel credydwy. Pan fodlonir amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoledig) neu Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i'r Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio. Caiff symiau yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ar ôl iddynt gael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

1.7 Budd-daliadau gweithwyr

Budd-daliadau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Budd-daliadau tymor byr i weithwyr yw'r rhai y mae'n ddyledus eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys budd-daliadau fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb salwch â thâl a bonysau i weithwyr presennol. Caiff y rhain eu cydnabod fel treuliau am wasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn darparu gwasanaeth i'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau a enillwyd gan weithwyr ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol, y gall gweithwyr ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Codir y croniad ar y llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ond yna caiff ei wrthdroi allan drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel bod budd-daliadau gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd ynddi.

Budd-daliadau Terfynu

Budd-daliadau terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth Swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad Swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol ac fe'u codir ar sail croniadau i'r llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, pan fydd y Cyngor wedi ymrwymo'n amlwg i derfynu cyflogaeth Swyddog neu grŵp o Swyddogion neu wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Lle mae budd-daliadau terfynu cyflogaeth yn cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud

yn ofynnol i'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn ar falans Cronfa'r Cyngor, nid y swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen dyraniadau i ac o'r Gronfa Bensiynau i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau terfynu gwella pensiwn a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Budd-daliadau Ôl-Gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân. Mae'r ddau gynllun yn darparu budd-daliadau diffiniedig i aelodau (symiau ymddeol a pensiynau), a enillwyd fel gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

Cynllun Pensiwn yr Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg (DfE). Mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun hwn yn golygu na ellir nodi atebolrwydd am fudd-daliadau yn benodol i'r Cyngor fel arfer. Felly, cyfrifir am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac ni chydabyddir unrhyw rwymedigaeth am dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn y Fantolen. Mae cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i Bensiynau Athrawon yn ystod y flwyddyn yn cael ei godi ar y llinell Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - mae gan weithwyr eraill hawl i fod yn aelodau o Gronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cyfrifir y Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun budd-daliadau diffiniedig:

- Mae rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn sy'n briodol i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanedig h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â budd-daliadau ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant gweithwyr, a rhagamcanion o enillion rhagamcanedig ar gyfer gweithwyr presennol.
- Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt.
- Mae asedau'r gronfa bensiwn sy'n briodol i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth teg:
 - Gwarantau a ddyfynnwyd – pris cynnig cyfredol
 - Gwarantau heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
 - Eiddo – gwerth marchnad
- Dadansoddir y newid yn y rhwymedigaeth pensiwn net i'r cydrannau canlynol:
 - Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y gweithiodd y gweithwyr ar eu cyfer
 - Cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i welliant neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – wedi'i ddebydu i'r Gwasanaethau Canolog yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
 - Llog net ar y rhwymedigaeth (ased) budd-daliadau diffiniedig net, h.y. treuliau llog net i'r Cyngor – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth (ased) budd-daliadau diffiniedig net sy'n deillio o dreigl amser a godir ar linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymhwysu'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth (ased) budd-daliadau diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth (ased) budd-daliadau diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a budd-daliadau.
 - Mae'r ail-fesuriadau yn cynnwys:
- Yr enillion ar asedau'r cynllun – ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig net (ased) – a godir ar y Gronfa Bensiynau ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall

- Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â'r rhagdybiaethau a wnaed yn y gwerthusiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – wedi'u codi ar y gronfa wrth gefn Pensiynau ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall:
 - Cyfraniadau i'r gronfa bensiwn – arian parod a delir fel cyfraniad cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; heb eu cyfrif fel treuliau.
- O ran budd-daliadau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr gael ei godi ar falans Cronfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau i ac o'r Gronfa Bensiwn i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau ymddeol a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ar gyfer unrhyw symiau sy'n daladwy i'r gronfa ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly, mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau yn mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod cyfrif am fudd-daliadau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag fel budd-daliadau a enillir gan weithwyr.
- Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol o fudd-daliadau ymddeol mewn achos o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau a amcangyfrifir i godi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a'u cyfrif gan ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

1.8 TAW

Dim ond i'r graddau nad yw'n adennilladwy gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi y cynhwysir TAW sy'n daladwy fel treuliau. Mae TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i eithrio o incwm.

1.9 Treuliau Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth

Yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol, dangosir gorbenion a gwasanaethau cymorth yn y gwasanaeth perthnasol lle cânt eu hysgwyo ac ni chânt eu hail-godi allan i feysydd gwasanaeth a gefnogir. Dangosir unrhyw incwm mewnol o ganlyniad i drafodion rhwng adrannau yn y llinell gwasanaeth cyflenwi gyda'r tâl cyfatebol yn cael ei ddangos yn y llinell gwasanaeth derbynnydd.

1.10 Asedau Anniriaethol

Mae'r Cyngor yn cyfrif am feddalwedd fel asedau anniriaethol i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan annatod o system TG benodol ac yn cael ei chyfrif fel rhan o eitem galedwedd Eiddo, Peiriannau ac Offer. Yr ased anniriaethol mwyaf arwyddocaol yw costau a thrwydded datblygu meddalwedd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Rhoddir oes ddefnyddiol gyfyngedig i bob meddalwedd, yn seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r feddalwedd fod o ddefnydd i'r Cyngor. Yr oes ddefnyddiol a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer y WCCIS yw 8 mlynedd. Codir tâl amorteiddio'r ased anniriaethol ar sail llinell syth dros yr oes ddefnyddiol a chaiff ei godi ar linell Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

1.11 Eiddo, Peiriannau ac Offer

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor a bod modd mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Codir gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflawni buddion economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth (h.y. atgyweiriadau a chynnal a chadw) fel treuliau pan gaiff ei ysgwyddo.

Cydnabyddir pob gwariant ar Eiddo, Peiriannau ac Offer waeth beth fo'u gwerth. Ystyrir nad yw gwariant o dan £40,000 yn gwella ac mae'n cael ei leihau ar unwaith oni bai y byddai'r gwariant, gyda'i gilydd dros fwy nag un flwyddyn, yn fwy na'r gwerth hwn.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, sy'n cynnwys eu pris prynu a'r holl wariant sy'n uniongyrchol gysylltiedig â dod â'r ased i gyflwr gweithio ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig. Yna, caiff asedau eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- **Tir ac adeiladau** – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV)
- **Eiddo gweithredol anarbenigol** – gwerth defnydd presennol (EUV)
- **Eiddo gweithredol arbenigol (megis ysgolion)** – cost amnewid wedi'i ddibrisio (DRC)
- **Cerbydau, peiriannau ac offer** – cost hanesyddol wedi'i ddibrisio
- **Asedau cymunedol** – cost hanesyddol
- **Asedau sy'n cael eu hadeiladu** – cost hanesyddol (nes iddynt ddod yn weithredol)
- **Asedau seilwaith** – cost hanesyddol wedi'i ddibrisio
- **Asedau dros ben ac eiddo buddsoddi** – gwerth teg
- **Asedau a gedwir i'w gwerthu** – yr isaf o'r swm cario a'r gwerth teg heb gostau gwerthu

Ystyrir bod cost asedau a gafwyd heblaw trwy brynu yn werth teg, oni bai nad oes gan y caffaeliad sylwedd masnachol (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, lle mae ased yn cael ei gaffael drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a ildwyd gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ysgwyddir tra bod asedau'n cael eu hadeiladu.

Ailbrisiadau

Caiff asedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar werth teg neu werth cyfredol eu hailbrisiu'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario'n wahanol iawn i'w gwerth teg neu eu gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir ailbrisiadau o asedau eiddo'r Cyngor ar sail rhaglen dreigl 3 blynedd. Cynhaliwyd gwerthusiadau asedau ychwanegol yn 2024-25 i sicrhau bod y gwerthoedd a gedwir yn y fantolen yn gywir yn sylweddol. Dim ond enillion ailbrisiu ers 1 Ebrill 2007 sy'n cael eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisiu, sef dyddiad ei sefydlu. Mae enillion ailbrisiu blaenorol wedi'u cyfuno i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Amhariad

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i benderfynu a oes unrhyw arwydd y gallai ased fod wedi'i amharu. Lle mae arwyddion yn bodoli a bod unrhyw wahaniaethau posibl yn cael eu hamcangyfrif yn berthnasol, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, lle mae hyn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad mewn gwerth am y diffyg. Lle bu enillion ailbrisiu blaenorol yn erbyn yr ased a gedwir yn y Gronfa Ailbrisiu, caiff unrhyw golled ddilynol ei hysgrifennu allan yn gyntaf yn erbyn y Gronfa Ailbrisiu gronedig gydag unrhyw falans yn cael ei godi yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant ar asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriadau ar gyfer:

- Asedau treftadaeth
- Asedau heb oes ddefnyddiol gyfyngedig y gellir ei phennu fel tir rhydd-ddaliadol
- Asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto, h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu, ac asedau a gedwir i'w gwerthu.

Cyfrifir dibrisiant ar werth yr ased ar ddechrau'r flwyddyn ac ar y seiliau canlynol:

Ased	Polisi	Bywyd
Tir	Dim dibrisiant yn cael ei godi	AMHERTHNASOL
Adeiladau	Dibrisiant llinell syth ar yr oes yr amcangyfrifir sy'n weddill	Yn ôl cyngor y Prisiwr (rhwng 1 - 79 oed)
Cerbydau, peiriannau ac offer	Dibrisiant llinell syth ar yr oes yr amcangyfrifir sy'n weddill	3 – 10 mlynedd
Isadeiledd - Pontydd	Dibrisiant llinell syth ar yr oes yr amcangyfrifir sy'n weddill	30 mlynedd
Isadeiledd - Ffyrdd	Dibrisiant llinell syth ar yr oes yr amcangyfrifir sy'n weddill	15 mlynedd
Isadeiledd - Arall	Dibrisiant llinell syth ar yr oes yr amcangyfrifir sy'n weddill	1 - 30 mlynedd

Mae enillion ailbriso hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi bod yn daladwy yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbriso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Cydranoli

Caiff asedau a brynwyd neu a ailbrisiwyd yn ystod y flwyddyn eu hadolygu i gadarnhau a fydd gan unrhyw ran o'r ased oes ddefnyddiol sylweddol wahanol ac effaith berthnasol ar ddibrisiant. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. O fewn portffolio asedau'r Cyngor, mae nifer o ddosbarthiadau asedau lle nad yw cydranoli yn cael ei ystyried, gan gynnwys:

- Offer – gan fod hyn yn cael ei ystyried yn amherthnasol.
- Dosbarthiadau asedau nad ydynt yn cael eu dibrisio – megis tir, eiddo buddsoddi, asedau treftadaeth, asedau cymunedol ac asedau a gedwir i'w gwerthu.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a gedwir i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd gwerth cario ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ei ddefnydd parhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gedwir i'w Werthu. Y meini prawf ar gyfer cydnabod asedau fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu yw:

- Ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol
- Gwerthiant yn debygol iawn
- Wedi'i farchnata'n weithredol
- Disgwyli'r cwblhau'r gwerthiant o fewn 12 mis.

Mae symiau a dderbynnir am warediad sy'n fwy na £10,000 yn cael eu categorio fel derbyniadau cyfalaf.

1.12 Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu gwerth diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Caiff Asedau Treftadaeth eu cydnabod a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbriso) yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor ar eiddo, peiriannau ac offer. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei Regalia Dinesig a nifer o baentiadau yn y Fantolen ar werth yswiriant. Ychwanegwyd gwerth y paentiadau at y Fantolen yn ystod 2017-18 yn seiliedig ar brisiad yswiriant a gynhaliwyd gan briswyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn ôl y Cod, nid oes cyfnod gofynnol rhagnodedig rhwng gwerthusiadau ac nid yw'r Cyngor yn bwriadu ailbriso ei Asedau Treftadaeth yn y dyfodol agos oni bai bod tystiolaeth o amhariad fel dirywiad neu ddifrod ffisegol, neu fod amheuan ynghylch eu dilysrwydd yn codi.

1.13 Taliadau i reffeniw ar gyfer asedau anghyfredol

Caiff gwasanaethau eu debydu â'r symiau canlynol i gofnodi cost wirioneddol dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant sy'n briodoladwy i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- Colledion ailbrisio ac amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i ariannu colledion dibrisiant, ailbrisio neu nam ar y gwerth nac amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud darpariaeth ddarbodus flynyddol o reffeniw i gyfrannu at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Mae hyn wedi'i fanylu ym Mholisi Darpariaeth Refeniw Isafswm blynyddol y Cyngor, ac mae'n gwahaniaethu rhwng gwariant cyfalaf â chymorth, gwariant cyfalaf heb gymorth, a Lesau Ariannol / PFI. Felly, mae colledion ac amorteiddiadau dibrisiant, ailbrisio ac amhariad yn cael eu disodli gan yr *Isafswm Darpariaeth Refeniw* (MRP) hwn trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y gwahaniaeth rhyngddynt. Yn flaenorol, roedd y Cyngor yn codi MRP ar sail llinell syth dros 45 mlynedd, ond o 2024-25 ymlaen, mabwysiadodd sail blwydd-dal. Mae hyn yn sicrhau bod costau gwariant cyfalaf â chymorth yn cael eu lledaenu'n gyfartal dros oes asedau, a bod y ddyled yn cael ei dileu'n llwyr o fewn pedwar deg pump o flynyddoedd.

1.14 Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf o dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant a gafwyd yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol wedi'i godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Mae enghreifftiau o wariant o'r fath yn cynnwys grantiau gwella cartrefi, fel Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, grantiau gwella trefi ac astudiaethau dichonoldeb tir. Lle mae'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chost y rhain o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthycu, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad oes unrhyw effaith ar lefel y dreth gyngor. Lle mae'r gwariant hwn yn cael ei ariannu gan grantiau neu gyfraniadau, mae hwn hefyd yn cael ei gludo i'r maes gwasanaeth perthnasol lle mae'r gwariant wedi'i godi.

1.15 Lesau

Caiff lesau eu dosbarthu fel lesau cyllid lle mae telerau'r les yn trosglwyddo'r holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, y peiriant neu'r offer o'r lesydd i'r lesddeiliad. Mae pob les arall wedi'u dosbarthu fel lesau gweithredol.

Pan fo les yn cwmpasu tir ac adeiladau, ystyrir yr elfennau tir ac adeiladau ar wahân at ddibenion dosbarthu.

Mae trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol les ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad yn cael eu cyfrif o dan y polisi hwn lle mae cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Lesddeiliad

Lesau Gweithredol

Codir tâl ar renti a delir o dan lesau gweithredol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel treuliau'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, y peiriannau neu'r offer a lesir. Gwneir taliadau ar sail llinell syth dros oes y les, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â phatrwym y taliadau (e.e. os oes cyfnod di-rent ar ddechrau'r les).

Y Cyngor fel Lesydd

Lesau Gweithredol

Pan fydd y Cyngor yn rhoi les weithredol dros eiddo neu eitem o beiriant neu offer, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell syth dros oes y les, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â phatrwm y taliadau (e.e. mae premiwm yn cael ei dalu ar ddechrau'r les). Mae costau uniongyrchol cychwynnol a achosir wrth negodi a threfnu'r les yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel treuliau dros gyfnod y les ar yr un sail ag incwm rhent.

Mabwysiadodd y Cyngor IFRS 16 (Lesau) yn weithredol o 1 Ebrill 2024, ar ôl dewis peidio â chymryd yr opsiwn o weithredu'n gynnar ond yn hytrach ei weithredu o 1 Ebrill 2024 pan ddaeth yn ofyniad gorfodol. Prif effaith gofynion IFRS 16 yw, ar gyfer trefniadau a gyfrifwyd yn flaenorol fel lesau gweithredol (h.y. heb gydnabod y cerbydau, y peiriannau, yr offer, yr eiddo a'r tir a leswyd fel ased, a rhenti yn y dyfodol fel rhwymedigaeth), bod ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth les bellach wedi'u cynnwys ar y fantolen o 1 Ebrill 2024. Mae'r Cyngor wedi dewis cymhwyso eithriadau cydnabyddiaeth i asedau gwerth isel (o dan £10,000 pan fyddant yn newydd) ac i lesau tymor byr h.y. lesau presennol sy'n dod i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2026, a lesau newydd sy'n para llai na 12 mis. Mae contract yn les, neu'n cynnwys les, os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth.

1.16 Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw contract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall. Nid yw trafodion di-gyfnod, fel y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn arwain at offerynnau ariannol.

Asedau Ariannol

				<i>Ailfesur (enillion) a cholledion:</i>				
(25.99)	(0.06)	(0.02)	(26.07)	Enillion / colledion actiwaraid sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(127.61)	(0.3)	(0.09)	(128)
(11.89)	(0.10)	(0.04)	(12.03)	Enillion / colledion actiwaraid sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	(5.49)	(0.03)	(0.01)	(5.53)
8.68	(0.14)	(0.05)	8.49	Enillion / colledion actiwaraid yn deillio o newidiadau mewn profiad				
0.07	0.03	0.02	0.12	rhwymedigaethau	1.31	0.02	-	1.33
(29.83)	(0.50)	(0.28)	(30.61)	Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol	0.67	-	-	0.67
-	-	-	-	Budd-daliadau a Dalwyd	(30.58)	(0.51)	(0.28)	(31.37)
-	-	-	-	Rhwymedigaethau wedi'u dileu ar setliadau	-	-	-	-
761.28	4.83	1.91	768.02	Balans ar 31 Mawrth	662.27	4.22	1.62	668.11

Roedd yr asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

Gwerth Teg Asedau'r Cynllun 2023-24 £m	Rhaniad yr Asedau 2023-24 %		Gwerth Teg Asedau'r Cynllun 2024-25 £m	Rhaniad yr Asedau 2024-25 %
517.14	64.00	Ecwitiau	529.69	65.10
52.52	6.50	Eiddo	49.63	6.10
98.58	12.20	Bondiau'r llywodraeth	88.69	10.90
126.05	15.60	Bondiau corfforaethol	119.61	14.70
13.74	1.70	Arian Parod ac Arian Cyfwerth	26.04	3.20
808.03	100.00	Cyfanswm yr asedau	813.66	100.00

Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati. Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a buddion dewisol wedi'u hamcangyfrif gan Aon Hewitt, cwmni annibynnol o actiwariaid, yn unol ag IAS 19.

Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr Actuari oedd:

2023-24 % y flwyddyn		2024-25 % y flwyddyn
4.8	Cyfradd ddisgownt	5.8
2.6	Chwyddiant CPI	2.5
2.6	Cyfradd cynnydd pensiwn	2.5
3.85	Cyfradd cynnydd cyflog	3.75
<i>Rhagdybiaethau Marwolaethau:</i>		
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr presennol :-		
21.0	Dynion	20.9
23.8	Menywod	23.7
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol :-		
22.3	Dynion	21.8
25.2	Menywod	24.8

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau budd-daliadau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod wedi'i bennu yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n tybio ar gyfer pob newid bod y dybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bod yr holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau mewn hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau i ddynion a menywod. Yn ymarferol, mae'n annhebygol y bydd hyn yn digwydd, a gall newidiadau yn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu'r cynllun, h.y. ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig. Ni newidodd y dulliau a'r mathau o dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod o'i gymharu â'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

Cynnydd mewn Rhagdybiaeth 2023-24 £m	Gostyngiad yn y Rhagdybiaeth 2023-24 £m		Cynnydd mewn Rhagdybiaeth 2024-25 £m	Gostyngiad yn y Rhagdybiaeth 2024-25 £m
(12.94)	12.94	Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%)	(9.93)	9.93
0.76	(0.76)	Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%)	0.66	(0.66)
12.18	(11.42)	Cyfradd cynnydd mewn pensiynau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%)	9.27	(9.27)
19.79	(19.03)	Hirhoedledd (cynnydd neu ostyngiad mewn 1 flwyddyn)	14.57	(14.57)

Effaith ar Lifau Arian y Cyngor

Mae natur ariannu'r LGPS yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflogwr a'i weithwyr dalu cyfraniadau i'r gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriadwyd i gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Bydd cyfradd cyfraniadau presennol y Cyflogwr i gyflawni lefel ariannu o 100% o rwymedigaethau'r cynllun yn cael ei hadolygu ar yr adeg hon. Os oes diffyg sylweddol (rhwymedigaeth) rhwng y budd-daliadau a enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w diwallu, bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn yr amser y bydd y budd-daliadau yn cael eu talu.

Dyma gyfraniadau disgwylidig y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026:

	2025-26 £m
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	22.08
LGPS Heb ei Ariannu	0.52
Athrawon Heb eu Hariannu	0.28
Cyfanswm	22.88

Y cyfnod cyfartalog wedi'i bwysoli ar gyfer y rhwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 14.8 mlynedd.

Athrawon

Yn 2024-25, talodd y Cyngor £18.738 miliwn (£15.075 miliwn ar gyfer 2023-24) i'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon. Roedd y cynnydd oherwydd y cynnydd mewn pensiynau o 23.68% i 28.68% yn 2024-25. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n ymwneud â blynyddoedd ychwanegol a ddyfarnwyd, ynghyd â'r cynnydd cysylltiedig. Yn 2024-25, roedd y rhain yn gyfanswm o £0.686 miliwn (£0.330 miliwn ar gyfer 2023-24).

31. Datgeliadau Offerynnau Ariannol

Categoriâu Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol wedi'u cario yn y Fantolen:

Asedau Ariannol

31 Mawrth 2024						31 Mawrth 2025				
Cyfredol		Anghyfredol		Cyfanswm £'000		Cyfredol		Anghyfredol		
Buddso ddiadau £'000	Dyledwyr £'000	Budds oddia dau £'000	Dyledwyr £'000			Buddso ddiadau £'000	Dyledwyr £'000	Buddso ddiadau £'000	Dyledwyr £'000	Cyfans wm £'000
50,426	9,236			59,662	Cost wedi'i Hamorteiddio	34,215	14,819			49,034
5,138			1,529	6,667	CCRCD	6,374	281			6,655
55,564	9.236		1,529	66,329	Cyfanswm yr asedau ariannol	40,589	15,100			55,689
		4,990		4,990	Asedau anariannol			4,890		4,890
		6,002		6,002	CCRCD			5,919		5,919
		10,992		10,992	Cyfanswm yr asedau anariannol			10,809		10,809
55,564	9,236	10,992	1,529	77,321	Cyfanswm	40,589	15,100	10,809		66,498

Mae'r ffigur buddsoddiadau cyfredol uchod yn cynnwys incwm cronedig sy'n dderbyniadwy ar gyfer buddsoddiadau hirdymor yn ogystal â llog tymor byr.

Mae'r ffigur dyledwyr o £14.819 miliwn (2023-24: £9.236 miliwn) yn y tabl uchod yn ymwneud â dyledwyr masnach am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ac mae wedi'i gynnwys yn y ffigur dyledwyr cyffredinol o £84.156 miliwn (2023-24: £55.930 miliwn) sydd wedi'i gynnwys yn y fantolen. Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â dyledwyr i'w gweld yn nodyn 23.

Rhwymedigaethau Ariannol

31 Mawrth 2024					31 Mawrth 2025			
Cyfredol		Anghyfredol			Cyfredol		Anghyfre dol	
Benthyca £'000	Credydwyr £'000	Benthyca a Rhwymedi gaethau Tymor Hir Eraill £'000	Cyfans wm £'000		Benthyca £'000	Credydw yr £'000	Benthyca a Rhwymedig aethau Tymor Hir Eraill £'000	Cyfansw m £'000
(13,636)	(7,875)	(106,086)	(127,597)	Cost wedi'i Hamorteiddio	(10,152)	(3,155)	(109,554)	(122,861)
		(1,637)	(1,637)	CCRCD			(3,860)	(3,860)
(13,636)	(7,875)	(107,723)	(129,234)	Cyfanswm	(10,152)	(3,155)	(113,414)	(126,721)

Mae'r ffigur benthyciadau cyfredol uchod yn cynnwys £1.848 miliwn o log cronedig sy'n daladwy am y flwyddyn.

Mae ffigur y credydwyr presennol o £3.155 miliwn (2023-24: £7.875 miliwn) yn ymwneud â chredydwyr masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd o £3.155 miliwn (2023-24: £6.702 miliwn) ac arian o £1.174 miliwn

(2023-24: £1.174 miliwn) a gedwir gan y Cyngor ar ran trydydd partïon ac mae wedi'i gynnwys yn ffigur cyffredinol y credydwy'r o £56.115 miliwn (2023-24: £54.107 miliwn) ar y fantolen. Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â chredydwy'r i'w gweld yn nodyn 25.

Gwrthbwysio asedau a rhwymedigaethau ariannol

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwysio yn erbyn ei gilydd lle mae gan y Cyngor hawl gyfreithiol orfodadwy i wrthbwysio ac mae'n bwriadu naill ai setlo ar sail net, neu wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi'u gwrthbwysio ar y fantolen.

31 Mawrth 2024 Asedau Gros (Rhwymedigaethau) £'000	Gwrthbwysio Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol	31 Mawrth 2025 Asedau Gros (Rhwymedigaethau) £'000
2,948	Cyfrifon Banc mewn Credyd	3,333
2,948	Cyfanswm yr Asedau Ariannol	3,333
(3,812)	Gorddrafftiau Banc	(5,826)
(3,812)	Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol	(5,826)
(864)	Safle Net	(2,493)
246	Symiau heb eu clirio gan y banc	(171)
(618)	Safle net yn y Fantolen	(2,664)

Incwm, gwariant, enillion a cholledion

Dangosir isod yr incwm, y gwariant, yr enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer offerynnau ariannol:

31 Mawrth 2024				31 Mawrth 2025		
Rhwymedigaethau Ariannol Cost wedi'i Hamort eiddio £'000	Asedau Ariannol Cost wedi'i Hamort eiddio £'000	Cyfanswm £'000		Rhwymedigaethau Ariannol Cost wedi'i Hamort eiddio £'000	Asedau Ariannol Cost wedi'i Hamort eiddio £'000	Cyfanswm £'000
5,881		5,881	Treuliau Llog	6,100		6,100
	(5,108)	(5,108)	Incwm Buddsoddi a Llog Derbyniadwy Arall		(4,771)	(4,771)
	-	-	CCRC	36	(571)	(535)
5,881	(5,108)	773	(Enillion)/colledion net am y flwyddyn	6,136	(5,342)	794

Gwerthoedd Teg Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol nad ydynt yn cael eu mesur ar Werth Teg

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu cario ar werth teg. Yn ogystal, nid oes unrhyw asedau a gedwir ar gost wedi'i hamort eiddio ar gyfer 2024-25.

31 Mawrth 2024		Rhwymedigaethau Ariannol	31 Mawrth 2025	
Swm cario £'000	Gwerth Teg £'000		Swm cario £'000	Gwerth Teg £'000

(77,617)	(76,376)	Rhwymedigaethau ariannol a gedwir ar gost wedi'i hamorteiddio:		
		Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb)	(77,037)	(70,098)
(19,745)	(22,222)	LOBOs	(19,736)	(21,037)
(2,735)	(2,291)	Benthyciadau Salix	(2,517)	(2,171)
		Benthycia tymor byr	(5,000)	(5,048)
(11,973)	(14,642)	PFI a rhwymedigaethau tymor hir eraill	(14,362)	AMHERTHNASOL
(112,070)	(115,531)	Cyfanswm	(118,652)	(98,354)

Mae gwerth teg y **Rhwymedigaethau Ariannol** yn uwch na'r swm cario oherwydd bod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau lle mae'r gyfradd llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau cyffredinol ar ddyddiad y Fantolen.

Cyfrifir gwerth teg rhwymedigaethau gan ddefnyddio mewnbynnau arsylwadwy arwyddocaol eraill (Lefel 2) fel a ganlyn:

- PWLB – Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – cyfraddau marchnad ar gyfer benthyciadau awdurdodau lleol o'r un tymor sy'n weddill hyd at aeddfedrwydd ag ar ddyddiad y Fantolen
- LOBO – Opsiwn y Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn y Benthyciwr – wedi'i gynyddu gan werth yr opsiynau mewnol. Mae opsiynau'r rhoddwr benthyciadau i gynnig cynnydd i'r gyfradd llog ar y benthyciad wedi'u priso yn ôl model perchnogol ar gyfer cyfnewidiadau diddymadwy Bermuda. Mae opsiynau amodol benthyciwr i dderbyn y gyfradd uwch neu ad-dalu'r benthyciad wedi'u priso'n sero, ar y dybiaeth mai dim ond pan fydd cyfraddau'r farchnad wedi codi uwchlaw'r gyfradd gytundebol y bydd rhoddwyr benthyciadau yn arfer eu hopsiynau.

Natur a graddfa'r risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol gan gynnwys:

- **Risg credyd** – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor;
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd na fydd gan y Cyngor arian ar gael i gyflawni ei ymrwymadau i wneud taliadau;
- **Risg y farchnad** - y posibilrwydd y gallai colled ariannol annisgwyl godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiadau cyfraddau llog.

Mae strategaeth rheoli risg gyffredinol y Cyngor yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor a'i nodi yn ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol sy'n cwmpasu meysydd penodol megis risg cyfradd llog, risg credyd a buddsoddi arian parod dros ben.

Risg Credyd

Mae risg credyd yn deillio o adneuo'n gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal ag amlygiadau credyd i gwsmeriaid y Cyngor. Mae'r risg yn cael ei lleihau i'r lleiafswm drwy'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol sydd wedi'i chynnwys yn [Strategaeth Rheoli Trysorlys](#) y Cyngor.

Mae arferion rheoli risg credyd y Cyngor wedi'u nodi yn y Strategaeth Fuddsoddi. Wrth benderfynu a yw risg credyd offerynnau ariannol wedi cynyddu ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r Cyngor wedi adolygu teilyngdod i gael credyd ei fuddsoddiadau ac wedi dod i'r casgliad nad oes cynnydd sylweddol wedi bod yn y risg credyd.

Prif amcan y Cyngor yw rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd cyn ystyried cynnyrch. Mae terfynau partïon i gontract yn cael eu hadolygu'n gyson a lle mae amodau'r farchnad yn mynnu hynny, mae'r terfynau'n cael eu lleihau. Yn ystod y flwyddyn, ni fu unrhyw newidiadau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried unrhyw fuddsoddiadau sydd â risg credyd uwch.

Amlygiad i risg credyd

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan y Cyngor y risg credyd ganlynol. Buddsoddwyd £18 miliwn o'r buddsoddiadau o £36.750 miliwn a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2025 gyda DMO, lle nad oes angen lwfans colled ddisgwyliedig.

Ar gyfer yr asedau ariannol hynny lle mae colled credyd ddisgwyliedig dros 12 mis yn gyfrifadwy, y golled credyd gyfrifedig yw £1,021. Mae hyn wedi'i gyfrifo trwy gyfeirio at ddata diffygion hanesyddol a gyhoeddwyd gan asiantaethau graddio credyd yn unol â chyngor ein Cyngorwyr Rheoli'r Trysorlys. Oherwydd amherthnasedd y golled credyd ddisgwyliedig, ni wnaed unrhyw addasiad yn y cyfrifon ar gyfer hyn.

	Sgôr risg credyd (fel y'i defnyddir gan y Cyngor)	Swm cario gros £ miliwn
Colledion credyd disgwyliedig 12 mis	AAA	18.00
	AA+	-
	AA-	3.00
	AA	-
	A+	15.50
	A	0.25
Dull symlach	LA	-
CYFANSWM		36.75

Nid yw'r Cyngor yn gyffredinol yn caniatáu credyd i'w gwsmeriaid (dyledwyr masnach) fel bod yr holl ddyledwyr masnach yn cael eu cydnabod fel rhai tymor byr, fodd bynnag, mae balans o £4.667 miliwn o ddyledwyr wedi mynd heibio'r dyddiad talu. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl risg credyd uchod.

Risg Hylifedd

Mae'r Cyngor yn rheoli ei risg hylifedd drwy ei reolaeth llif arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael pan fo angen. Mae ganddo fynediad parod at gyfrifon blaendal mynediad ar unwaith, cyfleusterau gorddrafft a benthycia gan y Marchnadoedd Arian neu awdurdodau lleol eraill i gwmpasu unrhyw angen llif arian parod o ddydd i ddydd. Yn ogystal, gall y Cyngor gael mynediad at fenthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb). Mae'r Cyngor yn trefnu benthyciadau a buddsoddiadau tymor penodol gydag ystod o ddyddiadau aeddfedu o fewn y fframwaith a'r dangosyddion a gymeradwyir bob blwyddyn. Nid oes unrhyw risg ganfyddedig na fydd y Cyngor yn gallu codi cyllid i gyflawni ei ymrwymadau, yn hytrach mae'r risg yn ymwneud ag ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol. Mae'r Cyngor yn gosod terfynau ar strwythur aeddfedrwydd benthycia cyfradd sefydlog fel nad yw mwy na 50% o fenthyciadau i fod i aeddfedu mewn unrhyw flwyddyn drwy gynllunio benthyciadau newydd a gymerir yn ofalus a gwneud ad-daliadau cynnar (lle mae'n fuddiol gwneud hynny). Mae'r dadansoddiad aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

31 Mawrth 2024 £'000	Dadansoddiad Aeddfedrwydd Rhwymedigaethau Ariannol	31 Mawrth 2024 £'000
(14,351)	Llai nag 1 flwyddyn	(11,230)
(5,529)	Rhwng 1 a 2 flynedd	(10,218)
(8,974)	Rhwng 2 a 5 mlynedd	(20,782)
(25,471)	Rhwng 5 a 10 mlynedd	(17,423)
(10,000)	Rhwng 10 ac 20 mlynedd	(5,000)
(36,389)	Mwy nag 20 mlynedd	(36,389)
(19,745)	Dyddiad ansicr*	(19,736)
(120,459)	Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol	(120,778)

* Mae hyn yn cyfeirio at Opsiynau'r Rhoddwr Benthyciadau Opsiynau'r Benthyciwr a allai gael eu hail-drefnu cyn eu dyddiad aeddfedu yn 2054, fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd oherwydd y cyfraddau llog isel presennol.

Mae'n rhaid talu pob taliad masnach a thaliadau eraill o fewn llai na blwyddyn.

Risg y Farchnad

Mae'r Cyngor yn agored i'r risg y gallai colled ariannol ddigwydd o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel

symudiadau cyfraddau llog, prisiau'r farchnad neu gyfraddau cyfnewid arian tramor.

Risg Cyfradd Llog

Mae'r Cyngor yn agored i risg o ran ei amlygiad i symudiadau cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae gan symudiadau mewn cyfraddau llog effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – mae'r gyfradd sefydlog yn amddiffyn y Cyngor rhag taliadau llog uwch gan y byddai benthyciad cyfatebol bellach yn costio mwy. Bydd gwerth teg y benthyciad (y rhwymedigaeth) yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – mae'r gyfradd sefydlog yn atal y Cyngor rhag derbyn incwm buddsoddi uwch o'r un prifswm a fuddsoddiwyd. Bydd gwerth teg yr ased yn gostwng

Ni chaiff benthyciadau eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion enwol ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged na'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau llog a rhagolygon y farchnad o fewn y flwyddyn i addasu amlygiadau yn briodol, er mwyn caniatáu darparu ar gyfer unrhyw newidiadau anffafriol. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau o gyfraddau llog sy'n gostwng, a lle mae amgylchiadau economaidd yn ei gwneud yn ffafriol, gellir ad-dalu benthyciadau cyfradd sefydlog yn gynnar i gyfyngu ar amlygiad i golledion. Yn ôl y strategaeth hon, ar 31 Mawrth 2025, pe bai newid o 1% mewn cyfraddau llog gyda'r holl newidynnau eraill yn gyson, byddai'r effaith ariannol tua:

	Amcangyfrif £'000 + 1%	Amcangyfrif £'000 -1%
Llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfradd amrywiol	133	0
Llog derbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol	(368)	(368)
Effaith ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(235)	(368)

Mae'r ffigurau ar gyfer effaith fras gostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog ar gyfer benthycia'n wahanol i'r ffigurau â'r cynnydd o 1% (ond wedi'u gwrthdroi) gan fod y benthycia cyfradd amrywiol yn ymwneud â'n benthyciadau LOBO lle tybir na fyddai'r rhoddwr benthyciadau'n arfer ei opsiwn pe bai gostyngiad mewn cyfraddau llog.

Risg pris

Gan nad yw'r Cyngor wedi buddsoddi mewn offerynnau sy'n destun risg pris, megis tystysgrifau blaendal banc a Bondiau'r Llywodraeth, nid yw'n destun risg pris.

Risg Cyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol wedi'u dynodi mewn arian cyfred tramor ac felly nid yw'n agored i golledion sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

Trosglwyddo i Offerynnau Ariannol IFRS9

Mabwysiadodd y Cyngor safon gyfrifyddu Offerynnau Ariannol IFRS9 yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Mae'r prif newidiadau'n cynnwys ailddosbarthu ac ailfesur asedau ariannol a chydabod amhariad ar werth asedau ariannol yn gynharach.

Mae natur offerynnau ariannol y Cyngor wedi golygu nad oes unrhyw newidiadau i fantolen y Cyngor wrth drosglwyddo.

32. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Pan fydd digwyddiad neu wybodaeth yn codi ar ôl y cyfnod adrodd (h.y. ar ôl 31 Mawrth 2025) sy'n ymwneud ag amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, byddai ffigurau penodol yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau yn cael eu haddasu os oes angen, ym mhob agwedd berthnasol, er mwyn adlewyrchu effaith y digwyddiad neu'r wybodaeth. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau o'r fath wedi bod ar ôl 31 Mawrth 2025 a oedd yn gofyn am adrodd.

33. Rhwymedigaethau Amodol

Mae rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor na fydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiad neu, fel arall, digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau ddibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

Mae concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) yn fath ysgafn o goncrit a ddefnyddiwyd mewn llawer o adeiladau cyhoeddus o ganol y 1950au i ganol y 1990au. Yn ystod mis Awst 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau newydd ar RAAC o ganlyniad i risgiau diogelwch cynyddol. O ganlyniad, dechreuodd y Cyngor arolygon o'i ystad i benderfynu a oedd RAAC yn bodoli. Hyd yn hyn, mae presenoldeb RAAC wedi'i gadarnhau mewn un ased – Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr – y mae'r Cyngor yn ei lesu ar drefniant tymor hir. O ganlyniad, caeodd y Cyngor y Farchnad Dan Do a chomisiynodd syrfêwr i bennu swm y RAAC yn y farchnad a'r gost amcangyfrifedig gysylltiedig o waith adfer. Mae adroddiad wedi dod i law'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn ystyried opsiynau ac, ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl mesur unrhyw rhwymedigaeth bosibl gyda dibynadwyedd digonol ac felly mae rhwymedigaeth ddibynnol yn bodoli.

Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

34. Addasiadau ar gyfer Symudiadau Arian Nad yw'n Arian Parod

2023-24 £'000		2024-25 £'000
(28,088)	Dibrisiant ac Amhariad Asedau	(32,171)
(3,538)	Symudiad mewn Rhestrau Eiddo, Dyledwyr a Chredydwyr	19,354
(960)	Addasiadau Cronfa Bensiynau	2,330
4,378	Darpariaethau	1,866
(716)	Gwaredu Ased Anghyfredol	(5,853)
(855)	Newidiadau yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi	(100)
	Addasiadau eraill	59
(44)	Addasiadau CCRCD i'r (gwarged)/diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	1,462
(29,823)	Addasiadau i'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	(13,053)

35. Gweithgareddau Gweithredu

Mae'r llif arian parod ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2023-24 £'000		2024-25 £'000
15,456	Llif Arian ar Weithgareddau Refeniw	9,823
3,154	Llog a Dalwyd	6,571
1,029	Elfen llog taliadau rhent PFI a les cyllid	1,138
(4,458)	Llog a Dderbyniwyd	(5,654)
-	CCRCD	3,777
15,181	Llifau Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	15,655

36. Gweithgareddau Buddsoddi

Mae'r llif arian parod ar gyfer gweithgareddau buddsoddi yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2023-24 £'000		2024-25 £'000
25,997	Prynu Eiddo, Offer a Pheiriannau ac Eitemau Anniriaethol	27,236
(8,395)	Prynu / (Elw) o Fuddsoddiadau Tymor Byr	(45,027)
(256)	Elw o werthu Eiddo, Offer a Pheiriannau ac Eiddo Buddsoddi	(6,343)
	Dyledwyr Hirdymor/Buddsoddiadau CCRCD	2,712
17,345	Llifau Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi	(21,422)

37. Gweithgareddau Ariannu

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau ariannu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2023-24 £'000		2024-25 £'000
(6,383)	Derbyniadau Arian Parod o fenthyciadau tymor byr a thymor hir	(8,167)
(12,895)	Derbyniadau Eraill o weithgareddau ariannu	(18,972)
	Ad-daliadau benthykiadau tymor byr a thymor hir	10,580
	CCRCD – HMT a grantiau eraill a dderbyniwyd	(944)
(19,278)	Llifau Arian Net o Weithgareddau Ariannu	(17,503)

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiâu cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i barhau i fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn wahanol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol fel arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- Nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy nhîm; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, yn ôl y galw, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn hollol rydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu

wall ac fe'u hystyris yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a'r
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Fel tîm archwilio, ystyried sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais bostio dyddiaduron anarferol, rhagfarn mewn amcangyfrifon cyfrifyddu a thrafodion sylweddol y tu allan i gwrs busnes arferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoldeb partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy'r tîm rheoli'n diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolyn ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu'n dynodi rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Hefyd, cyfathrebais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn cael eu heffeithio gan yr anhawster cynhenid o ganfod anghysondebau, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwrpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
31 Hydref 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Cyngor yw cynnal a chadw a chywirdeb gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol



Cynnwys

1	Rhagair
2	Fframwaith Llywodraethu
3	Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol
4	Asesiad Llywodraethu
5	Sicrwydd Archwilio
6	Gwella Llywodraethu
7	Datganiad Sicrwydd

1 Rhagair

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ganddo ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau ac adolygu'n gyson y graddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, a chael llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r gofynion hyn.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a threfniadau ar gyfer rheoli risg. Mae'n angenrheidiol bod gan ein cymunedau a'r rhai sy'n defnyddio ac yn talu am wasanaethau, y rhai sy'n darparu gwasanaethau, a'n partneriaid a'n cyflenwyr, hyder yn ein trefniadau llywodraethu. Rhaid iddynt gael sicrwydd bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn effeithlon a'u cyflwyno'n gyson, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif yn briodol, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac yn gyfreithlon.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynnal asesiad blynyddol o berfformiad, ac ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol?
- A yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol?
- A oes gan y Cyngor lywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod?

Mae [hunanasesiad blynyddol](#) y Cyngor wedi'i gyhoeddi ac mae'n nodi ymatebion i'r cwestiynau uchod ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 - bydd yr hunanasesiad ar gyfer 2024-25 yn cael ei adrodd yn hydref 2025. Mae'r hunanasesiad yn cadarnhau bod gan y Cyngor lywodraethiant da ar waith. Mae'r datganiad hwn yn nodi asesiad y Cyngor o'i lywodraethiant ar gyfer 2024-25.

Mae'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn hyderus bod y trefniadau llywodraethu wedi gweithredu'n effeithiol wrth gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau a'i gyfrifoldebau. Mae cyfleoedd bob amser i wneud gwelliannau, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y datganiad hwn a byddant yn cael sylw yn ystod y flwyddyn nesaf.



Y Cynghorydd John
Spanswick
Arweinydd y Cyngor



Jake Morgan
Prif
Weithredwr

2 Fframwaith Llywodraethu

Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Mae gan y Cyngor rôl allweddol wrth lywodraethu ac arwain ein cymuned. Mae llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar hyder y cyhoedd mewn Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor. Mae llywodraethu corfforaethol yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio a rheoli, arwain a dwyn y Cyngor i gyfrif drwyddynt, a sut mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae hefyd yn ymwneud â'r ffordd y mae Cyngorwyr a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn galluogi'r Cyngor i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac i ystyried a ydynt wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Yr hyn y mae'r Datganiad hwn yn ei ddweud wrthyh

Mae'r Datganiad hwn yn disgrifio'r graddau y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol a gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae hefyd yn nodi sut mae'r Cyngor wedi ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2024-25 a chamau i'w cymryd yn ystod 2025-26 yn dilyn adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r Datganiad wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau 2016: '[Delivering Good Governance in Local Government Framework](#)' a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE).



Cyfrifoldebau Llywodraethu'r Cyngor

Rhaid i'r Cyngor ystyried effaith hirdymor unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud a dylai gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill i wella lles yng Nghymru.¹

Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cyflawni canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd cynaliadwy fel ffocws allweddol i'w broses a'i strwythurau llywodraethu. Cyflawnir hyn drwy:

- ymddwyn â gonestrwydd, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith; a
- sicrhau agoredrwydd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi ei ymrwymiad i sicrhau bod system lywodraethu gadarn ar waith, a'i gyfrifoldeb dros hynny. Caiff y [Cod Llywodraethu Corfforaethol](#) ei adolygu'n flynyddol, a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo, ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi saith egwyddor llywodraethu da yn unol â *'Delivering Good Governance in Local Government Framework'*.

	Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Mae Egwyddorion Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y canlynol:
A	Ymddwyn â gonestrwydd, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith
B	Sicrhau agoredrwydd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.
C	Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
D	Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd
E	Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
F	Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
G	Rhoi arferion da ar waith mewn tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae gwerthusiad y Cyngor yn erbyn y saith egwyddor hyn wedi'i fanylu yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol, gan amlygu'r camau gweithredu sy'n dangos llywodraethu da a'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r camau gweithredu hyn.

¹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt a'r modd y mae'n atebol i'r gymuned leol, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i chynllunio i wneud defnydd priodol o arian cyhoeddus, ac atal colli arian cyhoeddus. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda rheoli'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Nid yw'n dileu'r holl risgiau; mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu risgiau, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a rheoli eu heffaith.

Er mwyn adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rhoddir sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Safonau, y Cyngor, y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn ôl yr angen, a'u herio ganddynt. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yn hyrwyddo ac yn cyflawni rheolaeth ariannol dda, ac mae'r Swyddog Monitro yn hyrwyddo ac yn cyflawni sicrwydd cyfreithiol a moesegol.

Gwneud Penderfyniadau a Chyfrifoldebau

Mae'r Cyngor yn cynnwys 51 o Aelodau etholedig gydag Arweinydd a Chabinet etholedig sy'n cael eu cefnogi a'u dwyn i gyfrif gan Bwyllgorau Craffu. Mae [cyfansoddiad](#) y Cyngor yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod y Cyngor yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'n cynnwys y rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes y Cyngor ac yn nodi rhestr o swyddogaethau a phenderfyniadau y gellir eu harfer gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig. Mae hefyd yn cynnwys y rheolau a'r protocolau y mae'r Cyngor, yr Aelodau a'r swyddogion yn eu dilyn.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Derbyniodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Mae'r Ddeddf yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad a gweithio rhanbarthol. Mae llawer o ddiwygiadau o fewn y Ddeddf, fodd bynnag, i grynhoi, cyflwynodd y Ddeddf:

- Diwygio trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl 16 a 17 oed;
- Cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol;
- Diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol;
- Diwygiadau o amgylch llywodraethu ac arweinyddiaeth ddemocrataidd;
- Gweithio ar y cyd;
- Diwygio'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu; a
- Phwerau i hwyluso uno gwirfoddol prif gynghorau.

Mae'r Ddeddf yn parhau i gael effaith eang ar drefniadaeth, pwerau, mesur perfformiad a llywodraethu'r Cyngor. O fis Mai 2022 ymlaen, newidiodd cyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n ofynnol i draean o'i aelodau fod yn aelodau lleig, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor. Ar gyfer y Cyngor, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach yn cynnwys 8 aelod etholedig

a 4 aelod lleyg. Mae'r cyfrifoldebau a gymerwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys:

- rôl wrth adolygu adroddiad hunanasesu'r Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer newid;
- ystyriaeth o ganlyniad ac ymateb i asesiad perfformiad panel o'r Cyngor; a
- chyfrifoldeb dros lunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** yn Bwyllgor statudol sy'n rhoi sicrwydd annibynnol ar amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor. Mae'n cynnwys 8 Cynghorydd a 4 Aelod Lleyg. Ei brif swyddogaethau yw:

- Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y Cyngor.
- Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb rheoli risg, rheolaeth fewnol, trefniadau i sicrhau gwerth am arian a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Ystyried yr adroddiad ar yr asesiad risg blynyddol, unrhyw adroddiadau interim a'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol.
- Goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor (gan gynnwys perfformiad archwilio darparwy Archwilio Mewnol allanol) ac adolygu ei ddatganiadau ariannol.
- I gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a chymeradwyo newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg.
- Ystyried a chymeradwyo adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, crynodeb o weithgarwch archwilio mewnol (gwirioneddol ac arfaethedig) a'r lefel o sicrwydd y gall ei rhoi ynghylch trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Ystyried adroddiadau gan y tîm Archwilio Mewnol ar argymhellion y cytunwyd arnynt nad ydynt wedi'u gweithredu o fewn amserlen resymol a chymeradwyo'r camau unioni angenrheidiol.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar swyddogaeth, Strategaeth a Pholisïau Rheoli'r Trysorlys.
- Monitro Strategaeth Gwrth-dwyll a Llwgwrwbrwyo'r Cyngor, ei Bolisi Gwrth-wyngalchu Arian a'i Bolisi Gwrth-efadu Trethi
- Adolygu a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.
- Adolygu a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol a phriodoldeb y polisïau cyfrifyddu a ph'un a ydynt wedi'u dilyn yn gywir, ac ystyried a oes unrhyw bryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn i sylw'r Cyngor.
- Adolygu ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Allanol ar berfformiad a chywirdeb ariannol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor, a derbyn adroddiadau gan reoleiddwyr allanol eraill yn ôl yr angen.
- Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol a gwneud argymhellion yn hyn o beth.
- Adolygu adroddiad hunanasesu drafft y Cyngor ar ei berfformiad ac, os ystyrir bod angen, gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau.

3 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion llywodraethu da ac arferion rheoli yn cael eu mabwysiadu ym mhob gweithgaredd busnes er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol wedi'u nodi isod.

1	Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Mae Cod Llywodraethu'r Cyngor yn darparu datganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyfarfod ac yn dangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion Cod Llywodraethu CIPFA.
2	Y Fframwaith Llywodraethu	Mae Cod y Cyngor wedi'i ategu gan Fframwaith Llywodraethu sy'n cynnwys y polisiau, y gweithdrefnau, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu a'i reoli drwyddynt.
3	Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau Llywodraethu'r Cyngor, ynghyd â nodi meysydd ffocws a gwelliant yn y dyfodol. Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n nodi'r meysydd hynny sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu gwella yn dilyn hunanasesiad.
4	Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y datganiad Llywodraethu sy'n cael eu monitro drwy Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4 Asesiad Llywodraethu

Nodir ffynonellau sicrwydd ar gyfer yr asesiad Llywodraethu isod.

Sicrwydd sydd ei angen	Ffynonellau sicrwydd	Sicrwydd a dderbyniwyd
Cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol	Cynllun Corfforaethol Cynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth Cynlluniau Gwasanaeth Fframwaith Perfformiad Corfforaethol Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol Asesiad Perfformiad Panel	Adroddiad yr Hunanasesiad Corfforaethol

Caiff gwasanaethau eu darparu'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol	Monitro Perfformiad Chwarterol yn y Cabinet/Bwrdd Rheoli Corfforaethol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol Dogfen Olrhain Rheoleiddio.	Adroddiad yr Hunanasesiad Corfforaethol Pwyllgorau Craffu ac adolygiadau Hunanasesiad Blynnyddol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Adolygiadau thematig Archwilio Cymru
Rheoli risg	Fframwaith Rheoli Risg	Adolygiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Her risg allanol Archwilio Cymru
Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol	Cyfansoddiad a Chynllun Dirprwyo, gan gynnwys rheolau gweithdrefn contractau a rheolau gweithdrefn ariannol Tîm Arweinyddiaeth Strategol – Cabinet a Bwrdd Rheoli Corfforaethol	Adroddiadau archwilio allanol Adroddiadau archwilio mewnol
Ymgysylltu â'r gymuned ac atebolrwydd cyhoeddus	Polisi Cwynion a Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu y Flaenraglen Waith	Adborth Ymgysylltu â'r Gymuned Adroddiadau'r Ombwdsmon
Prosesau caffael	Rheolau Gweithdrefn Contractau	Gwerth am arian
Rolau a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion	Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Swyddog Monitro a'r Swyddog S151	Archwiliadau Allanol e.e. Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru.
Safonau ymddygiad	Polisiâu a gweithdrefnau AD Cod Ymddygiad yr Aelodau Cod Ymddygiad y Swyddogion	Cwynion a chanmoliaeth a dderbyniwyd
Hyfforddi a datblygu Aelodau a Swyddogion	Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol Cynllun Datblygu Aelodau	Arolwg staff Adolygiadau Datblygu Perfformiad – proses arfarnu
Cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, polisiâu a gweithdrefnau mewnol	Polisiâu Cyfansoddiad y Cyngor Safonau'r Iaith Gymraeg Polisi lechyd a Diogelwch Adroddiadau Archwilio Mewnol Polisi Chwythu'r	Adolygiadau Archwilio Allanol Adolygiadau Archwilio Mewnol Adolygiadau allanol annibynnol – Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru.

	Chwiban Strategaeth Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian Polisi Gwrth-efadu Treth	
--	--	--

Mae Archwilio Cymru wedi cynnal ac adrodd ar nifer o adolygiadau yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain wedi cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nodir prif ganlyniadau'r adolygiadau isod.

Adroddiad	Prif Ganlyniadau
Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Awst 2024)	Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i gefnogi eu cynaliadwyedd ariannol ac egluro sefyllfa ariannol cynghorau a'r pwysau a'r risgiau cyllidebol allweddol i'w cynaliadwyedd ariannol. At ei gilydd, canfu'r archwiliad fod y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol gyda threfniadau da i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol y mae'n eu hystwytho ac yn eu haddasu ond ei fod yng nghyfnod cynnar datblygu ei ddull tymor hir. Cyflwynwyd dau argymhelliad yn yr adroddiad, sef:- - Er mwyn cryfhau dull y Cyngor o ymdrin â chynaliadwyedd ariannol, dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun arbedion ar draws amserlen y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, i ddangos yn glir sut y bydd y cyngor yn mynd i'r afael â'r bwlch ariannu neu gyfleu'r her yn glir lle nad yw hyn yn bosibl. - Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i sicrhau bod effaith ei sefyllfa ariannol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig ar gymunedau ac ar gyflawni ei amcanion lles yn cael ei hadrodd i aelodau er mwyn iddynt allu monitro ac ymdrin ag unrhyw effeithiau.
Adolygiad o Drefniadau Gwneud Penderfyniadau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Medi 2024)	Diben yr adroddiad hwn oedd cael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau gwneud penderfyniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau. At ei gilydd, canfu'r archwiliad fod gan y Cyngor drefniadau gwneud penderfyniadau priodol ar waith yn gyffredinol ond bod gwendidau mewn blaengynllunio a chraffu cyn gwneud penderfyniadau yn tanseilio eu heffeithiolrwydd. Cynigiwyd pum argymhelliad :- - Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei flaenraglen waith gyhoeddedig ar gyfer pwyllgorau yn hygyrch, yn gynhwysfawr, ac yn cwmpasu amserlen hirach na'r cyfnod presennol o 4 mis er mwyn rhoi mwy o gyfle i graffu cyn gwneud penderfyniadau cadarn a darparu mwy o dryloywder ynghylch y broses o wneud penderfyniadau i'r Aelodau a'r cyhoedd. - Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei gynllun dirprwyo yn cael ei ddiweddar, er mwyn lleihau'r risg o wneud penderfyniadau heb yr awdurdod priodol. - Dylai'r Cyngor sicrhau bod eglurder ynghylch rôl craffu yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r diffyg eglurder ynghylch rôl y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, yn enwedig mewn perthynas â chraffu cyn gwneud penderfyniadau, yn cyfyngu ar allu pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at y broses o wneud penderfyniadau. - Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn darparu mwy o dryloywder ynghylch cylch gwaith y gwahanol bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Nid yw enwi'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n 1, 2

	a 3 yn helpu gyda thryloywder cylch gwaith y pwyllgorau, yn enwedig o safbwynt y cyhoedd. Mae hefyd yn rhwystro posibl i annog cyfranogiad y cyhoedd yn y broses graffu. Dylai'r Cyngor sicrhau bod Aelodau'n derbyn rhaglen hyfforddi berthnasol, ac yn cael eu hannog i wneud hynny, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cyfarparu'n dda i ddeall a chyflawni eu rôl. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant wedi'i ffocysu ar gyfer rolau penodol, e.e. sgiliau cadeirio.
Gosod Amcanion Lles – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Medi 2024)	Diben yr adroddiad hwn oedd asesu i ba raddau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion lles. Canfu'r archwiliad fod y Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion lles, ond mae cyfleoedd i adeiladu ar sut mae'n cynnwys dinasyddion a sut mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid. Roedd tri argymhelliad :- - Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cwmpasu'r ystod lawn o ofynion statudol wrth ddatblygu ei ddatganiad lles nesaf, gan gynnwys: - sut y mae'n ystyried ei fod wedi gosod amcanion lles yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy; a - sut mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol at y diben o gymryd camau i gyflawni ei amcanion lles. - Dylai'r Cyngor adeiladu ar ei ddull ymgysylltu presennol drwy ystyried ffyrdd o: - ddefnyddio barn dinasyddion i lywio datblygiad yr amcanion Lles yn gynnar; a - sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth. - Dylai'r Cyngor nodi'n glir yn y cynllun corfforaethol sut y mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyflawniad ei amcanion lles.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn wynebu ystod o risgiau fel y byddai'n ddisgwyliedig o'r ystod eang o wasanaethau y mae'n eu darparu a'r gweithgareddau y mae'n ymwneud â nhw. O ddydd i ddydd mae risg weithredol yn codi o'r her o sicrhau digon o gapasiti a gallu i gynghori ar amcanion polisi allweddol y Cyngor, a'u cyflawni.

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull cadarn o reoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi'i alinio â Chynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth a fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r Cyngor yn diffinio risg fel: Unrhyw ddatblygiad neu ddigwyddiad posibl a fyddai, pe bai'n dwyn ffrwyth, yn peryglu gallu'r Cyngor i:

- gyflawni ei amcanion lles;
- darparu gwasanaethau fel y cynlluniwyd; neu
- gyflawni ei ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

Caiff risgiau eu hystyried o safbwynt y Gwasanaeth a safbwynt y Cyngor cyfan, sy'n sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu diferu yn yr [Asesiad Risg Corfforaethol](#). Mae'r Cyngor wedi gweld ansicrwydd a risg cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r hinsawdd economaidd bresennol a'r heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Mae'r Asesiad Risg yn nodi sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn a'r camau lliniaru y bydd yn eu rhoi ar waith i'w lleihau. Caiff ei adolygu a'i herio'n rheolaidd gan uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid yw'n bosibl dileu pob risg o fethu â chyflawni'r targedau ym mholisiau, nodau ac amcanion y Cyngor ac felly ni all roi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd, ond sicrwydd rhesymol.

Mae gan y Cyngor bolisiau a chanllawiau Rheoli Risg ar waith a ddefnyddir gan bob adran. Mae hyn yn galluogi staff i nodi risgiau, eu blaenoriaethu a gweithredu camau i'w lliniaru, mewn modd cyson ac amserol. Cyflwynwyd hyfforddiant i bob tîm rheoli cyfarwyddiaeth ac amlinellwyd y rolau a'r cyfrifoldebau ym mhob cam o'r broses. Adolygwyd Cynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth i sicrhau bod prosesau a chamau gweithredu yn cyd-fynd â'r broses rheoli risg gorfforaethol.

Mae newidiadau ar lefel gorfforaethol yn rhoi risg ar y Cyngor. Mae Prif Weithredwr newydd wedi'i benodi a bydd yn dechrau yn ei rôl ym mis Gorffennaf 2025. Efallai y bydd effaith ar y Cyngor wrth i'r Prif Weithredwr newydd ymgartrefu yn y rôl dros y cyfnod sydd i ddod.

Rheolaeth Ariannol

Cynhelir rheolaeth ariannol y Cyngor yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad. Mae gan y Cyngor Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Cynllun Ariannol penodol ar gyfer Ysgolion, ac mae'r cynllun dirprwyo swyddogaethau hefyd yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol. Mae'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yn gyfrifol am sefydlu fframwaith clir ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor ac am sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer eu gweinyddu'n briodol.

Mae gallu'r Cyngor i gyflawni arbedion a chynnwys ei wariant o fewn ei gyllideb gyffredinol wedi'i hen sefydlu. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol yn wyneb lefelau ariannu ansicr a phwysau costau, effaith barhaus argyfwng costau byw a'r gwrthdaro yn Wcraïn. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen iddo gynhyrchu tua £40 miliwn o arbedion dros y cyfnod 2025-26 i 2028-29. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi ystyried pwysau cost hysbys a meysydd blaenoriaeth yn unol â'r Cynllun Corfforaethol ac wedi cynnal ymgynghoriad helaeth i sicrhau proses gadarn. Er mwyn sicrhau mwy o gyfranogiad gan randdeiliaid yn natblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, cynhaliwyd ymgynghoriad 'Amser i Siarad' tair wythnos rhwng 6 Ionawr 2025 a 26 Ionawr 2025, gyda'r pwyslais ar geisio barn dinasyddion ar sut y dylem fynd i'r afael â'r sefyllfa gyllidebol. Cydnabuwyd bod cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2025-26 yn dal i fod yn anodd iawn, ac mae'r Cyngor yn wynebu hyd yn oed mwy o bwysau cost nag a brofwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Casglwyd y canlyniadau a'u defnyddio i lywio penderfyniadau terfynol ymhellach ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael ar wefan y Cyngor [yma](#). Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw arwydd o lefelau ariannu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. O ystyried yr ansicrwydd hwn, mae'r Cyngor wedi datblygu cyllidebau manwl ar gyfer 2025-26 ond dim ond rhagdybiaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod y gellir eu gwneud yn seiliedig ar ystod o senarios ariannu.

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol drwy weithdrefnau cyfrifyddu'r Cyngor, systemau ariannol allweddol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Mae trefniadau sydd ar waith i ddangos rheolaeth ariannol dda yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio cyllideb sefydledig ac adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, yn ogystal â gwybodaeth fanwl i ddeiliaid cyllideb. Mae'r Cyngor yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Cydymffurfio â Chod Ymarfer Rheoli Ariannol CIPFA

Lansiodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) y Cod Ymarfer Rheoli Ariannol (Cod FM) ym mis Tachwedd 2019. Datblygwyd y Cod FM yng nghyd-destun pryderon cynyddol ynghylch cydnheredd ariannol a chynaliadwyedd awdurdodau lleol.

Mae Cod FM yn nodi'r egwyddorion y dylai awdurdodau gael eu harwain wrth reoli eu cyllid a'r safonau penodol y dylent, o leiaf, geisio eu cyflawni. Mae'n egluro sut y dylai Prif Swyddogion Cyllid gyflawni eu cyfrifoldeb statudol am weinyddiaeth ariannol dda fel sy'n ofynnol yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn pwysleisio cyfrifoldeb ariannol cyfunol yr holl arweinyddiaeth gan gynnwys yr aelodau etholedig perthnasol.

Er bod y Cod wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg i natur, anghenion ac amgylchiadau awdurdodau unigol, mae'n gyfrifoldeb ar bob awdurdod i benderfynu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r Cod FM ac i nodi pa gamau y gallai fod am eu cymryd i fodloni'r safonau y mae'r Cod FM yn eu nodi'n well. Yn ei Fwletin Canllawiau 06 (*Application of the Good Governance Framework 2020/21*) nododd CIPFA y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol gynnwys casgliad cyffredinol asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag egwyddorion Cod y Fframwaith Llywodraethu Da. Hefyd, lle mae materion neu feysydd i'w gwella heb eu datrys, dylid cynnwys y rhain yn y cynllun gweithredu. Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol adolygiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â'r Cod FM yn ystod 2024-25 a rhoddodd farn archwilio o Sicrwydd Sylweddol, a bod nifer o gryfderau a meysydd o arfer da yn amlwg.

Nododd asesiad y Cyngor o'i gydymffurfiaeth â'r 19 Safon a amlinellir yng Nghod y System Rheoli Cyfyngiadau ar gyfer 2024-25 y gallai'r Cyngor ddangos cydymffurfiaeth â'r holl Safonau, ond y gellid cymryd camau pellach i wella cydymffurfiaeth yn ystod 2025-26. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer 2025-26 a'u diben yw:

- Adolygu a diweddarau gweithdrefnau a pholisïau Ariannol y Cyngor yn ôl yr angen e.e. Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Cynllun Ariannol ar gyfer Ysgolion, Polisi Ffioedd a Thaliadau, i adlewyrchu amgylchiadau a phrosesau sy'n newid o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol heriol;
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i'r Cyngor llawn ac ysgolion, yn ôl yr angen, ar Reoli Cyllideb, Strategaeth Gyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd;
- Parhau i ddatblygu cynigion lleihau cyllideb ar gyfer oes lawn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a lefel uchel o fonitro cyflawniad y gostyngiadau presennol; a
- Cheisio gwella ac ehangu cwmplas y broses ymgynghori ar y gyllideb er mwyn sicrhau ymatebion mwy ystyrlon a phenodol.

Mae cynnydd yn erbyn y rhain wedi'i gynnwys yn Adran 6 – Gwella Llywodraethu.

5 Sicrwydd Archwilio

Archwilio a Sicrwydd Archwilio

Caiff y Cyngor ei archwilio'n allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chefnogaeth Archwilio Cymru. Amcanion hyn yw cael sicrwydd ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn hollol rydd o gamdatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; a chyhoeddi barn arnynt. Maent hefyd yn asesu ein trefniadau ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Yn 2024, rhoddodd yr Archwilydd Allanol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2023-24.

Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio nifer o hawliadau grant ac, yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd 5 archwiliad o grantiau a ffurflenni. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn cynnal adolygiadau o wahanol wasanaethau a hefyd adolygiadau perfformiad drwy gydol y flwyddyn, ac adroddir ar ganlyniadau'r rhain i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Archwilio Mewnol yn ofyniad statudol o fewn Llywodraeth Leol. Cynhelir archwiliad mewnol y Cyngor gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, gwasanaeth partneriaeth a rennir rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Barn flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2024-25 yw:

“Sicrwydd Rhesymol”

Mae'r farn yn nodi, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a Rennir ar gyfer y flwyddyn ariannol, nad oes unrhyw faterion rheoli trawsbynciol sylweddol wedi'u nodi a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor. Mae 86% o'r cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni, sy'n dynodi sylw da i archwilio mewnol ar draws pob maes gwasanaeth. Mae'r gwendidau a nodwyd yn benodol i'r gwasanaeth. Cyflwynwyd barn archwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy gydol y flwyddyn fel y crynhoir isod.

Barn Archwilio	Nifer	%
Sicrwydd sylweddol	10	23
Sicrwydd rhesymol	29	68
Sicrwydd cyfyngedig	4	9
Dim sicrwydd	0	0
Cyfanswm	43	100

Roedd 91% o farnau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn gadarnhaol, a oedd yn rhoi lefel dda o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli; ni chyhoeddwyd unrhyw farnau 'Dim Sicrwydd'.

Mae pob un o'r 6 archwiliad a ohiriwyd o 2023-24 wedi'u cwblhau. Mae 3 archwiliad wedi'u cynllunio ar y gweill ar ddiwedd 2024-25 ac mae 4 arall wedi'u gohirio i gynllun archwilio 2025-26. Mae'r holl argymhellion a wnaed i wella llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ystod 2024-25 wedi'u derbyn gan y rheolwyr gweithredol ac maent ar wahanol gamau o'u gweithredu. Adroddwyd yn chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt a chynnydd cwblhau'r Cynllun Archwilio Mewnol.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn derbyn dogfen olrhain rheoleiddio ddwywaith y flwyddyn. Cyflwynwyd hyn i gwmpasu'r holl reoleiddwyr a'r holl arolygiadau a gwblhawyd a'u hargymhellion ar gyfer y Cyngor. Mae'r ddogfen olrhain yn canolbwyntio ar argymhellion â sgôr oren a choch, sef argymhellion â sgôr digonol ac anfodddhaol, tra bod y Pwyllgorau Craffu Pwnc a Throsolwg yn derbyn yr adroddiad i gynnwys yr holl argymhellion waeth beth fo'u sgôr.

6 Gwella Llywodraethu

Nodwyd nifer o faterion arwyddocaol yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2023-24 y Cyngor. Dangosir y cynnydd a wnaed ar y materion arwyddocaol isod:

6.1 Cynnydd ar faterion a godwyd yn 2023-24 ac a gafodd sylw yn 2024-25

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Beth oedd y problem	Canlyniad y camau a gymerwyd
Rheolaeth ariannol tymor canolig i dymor hir	F	Nid yw effaith gostyngiadau cyllidebol bellach yn gynaliadwy drwy frigdorri cyllidebau, a bydd angen i'r ffocws droi at ostyngiadau yn y ddarpariaeth gwasanaethau a'r potensial i'r Cyngor roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau eraill.	Cwblhawyd y broses o osod y gyllideb yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Chwefror 2025. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda grwpiau gwleidyddol ym mis Rhagfyr gan eu galluogi i wneud sylwadau ar y cynigion fel yr oeddent ar y pryd, a oedd yn galluogi aelodau i fod yn fwy gwybodus am gyllidebau'r Cyngor. Cynhaliwyd dau gyfarfod ffocws gyda Phanel Gwerthuso Ymchwil Cyllideb ym mis Rhagfyr yn edrych ar Addysg / Ysgolion a Gofal Cymdeithasol a Lles. Cafodd yr aelodau well dealltwriaeth o'r meysydd hyn i helpu i gefnogi eu rolau yn y broses o osod y gyllideb.
Recriwtio	E	Mae anawsterau'n parhau mewn rhai meysydd o ran recriwtio staff.	Bu gwelliant parhaus gyda recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Plant o ganlyniad i ymdrechion y gwasanaeth. Bydd angen i'r gwasanaeth ddatblygu cynigion tymor hwy dros y 12 mis nesaf. Mae angen i rai o'r egwyddorion gael eu hystyried gan feysydd eraill sy'n cael anhawster recriwtio. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau eraill fel tyfu eu cynnyrch eu hunain drwy brentisiaid neu raddedigion.
Datgarboneiddio (wedi'i gario ymlaen o 2023-24)	D	Er bod gan y Cyngor strategaeth Ddagarboneiddio 2030 ar waith, nid yw wedi nodi'n llawn yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r strategaeth na sut y gall partneriaid helpu i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth.	Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi cael comisiwn i adolygu ein cynnydd tuag at amcan sero carbon 2030, trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r dasg hon ac i ddarparu cost lefel uchel ar gyfer yr amcan. Cyflwynwyd drafft cyntaf eu hadroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 ar 7 Ebrill 2025. Bydd swyddogion nawr yn adolygu'r adroddiad a'r adborth craffu ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn y man gyda newidiadau i'r cynllun gweithredu a'r llywodraethu ar gyfer taith 2030. Yn werth nodi bod y gost fras o £59.2 miliwn o bunnoedd i

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Beth oedd y problem	Canlyniad y camau a gymerwyd
			weithredu'r mentrau arfaethedig wedi tynnu sylw at faint y dasg a'r lefel uchel o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru y bydd ei angen.
Defnyddio gwybodaeth am berfformiad (persbectif defnyddiwr gwasanaeth)	C	Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall persbectif y defnyddiwr gwasanaeth a chynllunio gwasanaethau yn unol â hynny.	Rydym yn cymryd rhan yng Nghymuned Ymarfer Gwybodaeth Perfformiad newydd Cyngor Cymru sydd â'r nod o wella ansawdd gwybodaeth perfformiad (gan ganolbwyntio'n benodol ar ymateb i feirniadaethau Archwilio Cymru ledled Cymru) a darparu cyfleoedd i adolygu trefniadau rheoli perfformiad, rhannu arferion gorau, a chydweithio ar ddatblygu data. Cynhaliwyd yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol (CLLLC/Data Cymru) yn yr Hydref a bydd y canfyddiadau'n cael eu dadansoddi nawr.
Rheolaeth Ariannol Well	G	Nododd asesiad y Cyngor o'i gydymffurfiaeth â'r 19 Safon a amlinellir yn y Cod FM ar gyfer 2023-24 y gallai'r Cyngor ddangos cydymffurfiaeth â'r holl Safonau, ond y gellid cymryd camau pellach i wella cydymffurfiaeth yn ystod 2024-25.	Cytunwyd ar y Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig gan y Cabinet a chawsant eu nodi gan y Cyngor ym mis Ionawr 2025. Mae'r gyllideb yn parhau i gael ei monitro'n agos a'i hadrodd i'r Cabinet bob chwarter. Mae mwy o friffiau i aelodau hefyd wedi cael eu darparu Cyhoeddwyd cyfres o bostiadau cyfryngau cymdeithasol yn yr Hydref i godi ymwybyddiaeth o sefyllfa gyllidebol y Cyngor ac egluro sut mae'r arian yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn. Gwnaed hyn cyn yr ymgynghoriad cyllideb lawn a gwblhawyd ym mis Ionawr 2025.
Strategaeth Ddigidol	D	Canfu adolygiad gan Archwilio Cymru wendidau yn null strategol y Cyngor o reoli a chyflawni ei strategaeth ddigidol. Nid yw strategaeth ddigidol y Cyngor 2020-24 wedi'i mynegi fel set o amcanion a cherrig milltir mesuradwy sydd wedi'u cyfyngu gan amser. Yn absenoldeb amcanion clir a mesur llwyddiant, ni all y Cyngor ddeall yn hawdd a yw'n cyflawni ei ganlyniadau bwriadedig a gwerth am arian. Canfu'r adolygiad hefyd nad yw'r Cyngor wedi ymgynghori	Mae'r Strategaeth Ddigidol ddrafft bellach wedi'i chwblhau ac mae wedi ystyried y materion a godwyd gan Archwilio Cymru ynghyd â'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol. Bydd proses ymgynghori ar y ddogfen yn dechrau ym mis Mai 2025

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Beth oedd y problem	Canlyniad y camau a gymerwyd
		â'r holl randdeiliaid, nac wedi ystyried cost cyflawni ei strategaeth ddigidol na'r arbedion y gellir eu cyflawni.	

6.2 Materion a godwyd yn 2024-25 a fydd yn cael sylw yn 2025-26

Yn seiliedig ar adolygiad o'r fframwaith llywodraethu, ac asesiad o gydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA, bydd y materion arwyddocaol canlynol a nodwyd yn 2024-25 yn cael sylw yn 2025-26 gyda'r dolenni i'r [Egwyddorion Llywodraethu](#) ar dudalen 5:

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Beth oedd y problem	Camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater
Gwerth am Arian	G	Diweddaru'r Strategaeth Gaffael Gymdeithasol-Gyfrifol	Mae gan y Cyngor Strategaeth Gaffael Gymdeithasol-Gyfrifol ar gyfer 2021-2024, gyda'r nod o gefnogi'r economi sylfaenol, cefnogi gweithrediad Strategaeth Ddatgarboneiddio 2030 y Cyngor a'r economi gylchol, sicrhau'r gwerth cymdeithasol a'r buddion cymunedol gorau posibl, a sicrhau gwerth am arian wrth ystyried y gost oes gyfan, ymhlith pethau eraill. Mae'r Strategaeth yn cael ei diweddaru yn dilyn gweithredu Deddf Caffael 2023 i ddangos sut y bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw. Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn Hydref 2025. Bydd Cynllun Datblygu gyda cherrig milltir allweddol yn cyd-fynd â'r strategaeth. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan CMB/CCMB.
Gwastraff	E	Trosglwyddo'r Gwasanaeth Gwastraff yn ôl i'r Cyngor	Bydd trefniadau'r Gwasanaeth Gwastraff yn trosglwyddo'n ôl i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2027. Bydd y prosiect hwn yn gofyn am lawer o adnoddau a bydd nifer o swyddogion o bob rhan o'r Cyngor yn cymryd rhan. Mae Bwrdd Llywodraethu Mewnol a Bwrdd Pontio Gwastraff wedi'u sefydlu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni ar amser ac o fewn yr amlen gyllideb.
Rheolaeth Ariannol a Chynaliadwyedd	E	Darparu hyfforddiant ychwanegol i Aelodau'r Cyngor ac Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Mae ystod eang o hyfforddiant ariannol wedi'i ddarparu i aelodau yn flaenorol, ond er mwyn sicrhau bod aelodau, gan gynnwys

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Beth oedd y problem	Camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater
		llawn yn ôl yr angen ar Reoli Cyllideb, y Strategaeth Gyfalaf, Rheoli'r Trysorlys a Chronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd.	aelodau newydd, yn cynnal ac yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion ariannol allweddol, mae'n bwysig darparu hyfforddiant yn rheolaidd. Darperir briffiau i aelodau ar bynciau megis y strategaeth ariannol tymor canolig, monitro cyllideb, rheoli'r trysorlys a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ôl yr angen. Mae'r Swyddog Rheoli Ysgolion Lleol yn darparu sesiwn hyfforddi Cyllid bwrpasol i Lywodraethwyr Ysgolion newydd. Mae sesiwn hyfforddi Datblygiad Proffesiynol wedi'i chynllunio hefyd ar gyfer Haf 2025 yn ymdrin â 'Rheoli Cyllideb Ddiffygiol' a fydd ar gael i Benaethiaid, Llywodraethwyr a Swyddog Cyllid Ysgolion.
Monitro Perfformiad Ariannol	E	Cynhelir adolygiad llawn o'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllidebau (BREP), gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.	Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) archwiliad o 'Arbedion Cyllideb 2023/24' a chyhoeddodd ei adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2024. Darparodd yr RIAS farn archwilio o Sicrwydd Sylweddol. Un o'r argymhellion lefel isel, a gytunwyd gan y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, a fydd yn cael eu gweithredu yn y dyfodol: Yn unol â'r argymhellion a dderbyniwyd gan y Cabinet, cynhelir adolygiad llawn o BREP, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn ogystal, mae strwythur y pwyllgorau Craffu wedi'i ddiwygio eleni. Bydd hyn yn arwain at COSC yn cymryd yr awenau ar y broses o graffu ar y gyllideb.
Cyllid ysgolion	F	Mae yna gynnydd mewn bregusrwydd ariannol ymysg ysgolion yn y Fwrdeistref ac mae ysgolion yn gorfod defnyddio eu balansau i ariannu gweithgaredd gyda risg uwch o ysgolion yn mynd i ddiffyg.	Mae llywodraethwyr ysgolion yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar sefyllfaoedd cyllid ysgolion. Mae gwaith yn cael ei wneud gydag ysgolion i ddeall effaith unrhyw ostyngiadau cyllideb ar ysgolion unigol. Mae Grŵp Rheoli Diffyg Ysgolion, sy'n cynnwys penaeithiaid a swyddogion, wedi bod yn adolygu'r sefyllfa a bydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ac argymhellion ar gyfer y camau

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Beth oedd y broblem	Camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater
			nesaf i'r Cabinet anffurfiol. Mae'r tîm cyllid hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion ar gynlluniau adfer diffyg i ddod â'r diffygion yn ôl i gydbwysedd yn unol â'r meini prawf a nodir yn y Cynllun Ariannol ar gyfer Ysgolion.
Recriwtio	E	Mae anawsterau'n parhau mewn rhai meysydd o ran recriwtio staff.	Mae recriwtio wedi'i dargedu yn parhau mewn rhai meysydd allweddol, gyda phecynnau recriwtio pwrpasol yn cael eu datblygu yn ôl yr angen. Rydym yn parhau i weithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddatblygu atebion na fydd yn dadsefydlogi'r farchnad swyddi.

Bydd y materion hyn yn cael eu monitro drwy gynllun gweithredu manwl yn ystod 2025-26, gyda'r swyddog cyfrifol a'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu wedi'u nodi ar gyfer pob cam gweithredu ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet/Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

7 Datganiad Sicrwydd

Mae trefniadau llywodraethu wedi cefnogi'r Cyngor yn effeithiol drwy gydol y cyfnod adrodd. Mae penderfyniadau'n destun craffu allanol a mewrol effeithiol a lle canfyddir gwendidau, rhoddir cynlluniau gweithredu ar waith a'u monitro. Yn seiliedig ar hyn, yn amodol ar ddatrys y materion uchod, gallwn roi sicrwydd rhesymol cyffredinol bod trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn addas at y diben.

Bydd camau i fynd i'r afael â'r materion y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cymryd i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach.

Arweinydd

Dyddiad: 20 Hydref 2025

Prif Weithredwr

Dyddiad: 20 Hydref 2025

Rhestr o Derau

Croniad

Croniad yw swm a ddangosir yn y cyfrifon sy'n cynrychioli incwm neu wariant ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu ond nad oedd wedi'i dderbyn na'i dalu mewn gwirionedd ar ddyddiad y fantolen.

Actuari

Actuari yw person sy'n cyfrifo premiymau yswiriant a phensiwn, gan ystyried ffactorau fel disgwyliad oes.

Amorteiddio

Gostyngiad yng ngwerth gwariant cyfalaf nad yw wedi creu ased, trwy daliadau i reffeniw.

Archwiliad

Archwiliad annibynnol o gyfrifon y Cyngor yw archwiliad.

Mantolen

Dyma ddatganiad o'n hasedau, ein rhwymedigaethau a'n balansau eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef 31 Mawrth.

Cyllideb

Mae cyllideb (neu amcangyfrif) yn gynllun o incwm a gwariant, ac mae'r dreth gyngor yn cael ei phennu arno. Caiff gwariant ac incwm gwirioneddol eu monitro wedyn yn erbyn y cynllun hwn.

Gwariant cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar asedau sefydlog. Dyma asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau ac maent yn eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol.

Derbyniad cyfalaf

Derbyniadau cyfalaf yw elw o werthu asedau sefydlog fel tir neu adeiladau.

Datganiad llif arian parod

Dyma ddatganiad sy'n crynhoi'r symudiadau mewn arian parod yn ystod y flwyddyn.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cyfrif hwn yn cofnodi gwariant ac incwm o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau a thâl, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

Rhwymedigaethau dibynnol

Mae Rhwymedigaeth Ddibynnol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol.

Craidd Corfforaethol a Democrataidd (CDC)

Mae CDC yn wasanaeth a ddifinnir gan y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau sy'n cynrychioli costau sy'n ymwneud â gweithgarwch Aelodau (Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd) a chostau sy'n darparu'r seilwaith i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau (Rheolaeth Gorfforaethol).

Credydwr

Credydwr yw sefydliad / rhywun y mae'r Cyngor arno arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau / gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu flynyddoedd blaenorol.

Asedau cyfredol

Asedau tymor byr yw'r rhain sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol.

Rhwymedigaethau cyfredol

Rhwymedigaethau tymor byr yw'r rhain sy'n ddyledus i'r Cyngor eu talu yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol.

Dyledwr

Mae dyledwr yn sefydliad / rhywun a oedd arno arian i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau / gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu flynyddoedd blaenorol.

Balansau ysgolion dirprwyedig

O dan ddarpariaethau Rheoli Ysgolion yn Lleol, caiff unrhyw falansau a gronnir ar ddiwedd y flwyddyn eu dirprwyo i ysgolion unigol. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu dal y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor.

Dibrisiant

Dibrisiant yw'r golled amcangyfrifedig yng ngwerth asedau sefydlog a gyflwynir yn y Fantolen.

Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd

Cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo at ddiben penodol yw'r rhain.

Cyfrif ysgrow

Mae ysgrow yn drefniant cyfreithiol lle mae arian yn cael ei anfon i drydydd parti (a elwir yn asiant ysgrow) i'w ddal mewn ymddiriedolaeth tra bod eitem ddigwyddiadol neu gyflawni amod neu amodau mewn contract ar y gweill.

Datganiad Gwariant a Chyllid

Mae'r datganiad hwn yn dwyn ynghyd perfformiad awdurdodau lleol a adroddwyd ar sail gwariant a fesurwyd o dan arferion cyfrifyddu priodol gyda thaliadau a ddiffiniwyd yn statudol i Gronfa'r Cyngor.

Blwyddyn Ariannol

Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. I awdurdodau lleol, mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Lesau ariannol

Defnyddir lesau ariannol i ariannu pryniannau lle mae'r Cyngor yn cymryd y rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased.

Grantiau'r llywodraeth

Cymorth gan asiantaethau llywodraeth a rhynglywodraethol a chyrrff tebyg, boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddiadau asedau i Gyngor yn gyfnewid am gydymffurfio yn y gorffennol neu yn y dyfodol â rhai amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor.

Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS)

Rheoliadau ariannol i'w dilyn fel y'u gosodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (ASB).

Pwyllgor Dehongli Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRICs)

Corff deongliadol y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a gynlluniwyd i helpu'r IASB i wella adrodd ariannol drwy nodi, trafod a datrys problemau adrodd ariannol yn amserol o fewn fframwaith IFRS.

Rhestrau Eiddo

Rhestrau yw deunyddiau crai a brynir i'w defnyddio o ddydd i ddydd. Dangosir gwerth yr eitemau hyn nad ydynt wedi'u defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel asedau cyfredol yn y fantolen.

Lesu

Mae hwn yn ddull o ariannu gwariant cyfalaf drwy dalu'r perchennog i ddefnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

Rhwymedigaeth

Mae rhwymedigaeth yn swm sy'n daladwy rywbryd yn y dyfodol.

Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP)

Dyma swm sydd wedi'i neilltuo i ad-dalu benthyciadau. Dylai hwn fod yn swm darbodus.

Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar wahanol gronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Cyngor.

Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Yr NNDR, neu'r Ardreth Fusnes, yw'r tâl a godir ar feddianwyr eiddo busnes. Caiff yr arian a gesglir ei dalu i Lywodraeth Cymru a'i aildosbarthu i awdurdodau unigol yn gymesur â'u poblogaeth oedolion.

Gwerth Realeiddiadwy Net

Pris gwerthu ased, wedi'i leihau gan gost berthnasol (uniongyrchol) ei werthu.

Costau Nad Ydynt yn Ddosbarthadwy (NDC)

Mae NDC yn categori o gostau a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau ac ni ellir ei ddyrannu i wasanaethau penodol. Mae'n cynrychioli:

- costau cyfleusterau TG nas defnyddir,
- costau asedau hirdymor nas defnyddiwyd ac na ellir eu realeiddio,
- costau penodol o gronfeydd pensiwn

Gwerth Marchnad Agored mewn Defnydd Presennol (OMVEU)

Mae OMVEU yn sail ar gyfer prisio asedau sefydlog.

Asedau gweithredol

Asedau a ddefnyddir wrth redeg / darparu gwasanaethau yw'r rhain.

Lesau gweithredol

Lesau yw'r rhain lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn parhau gyda'r perchennog.

Digwyddiadau ar ôl y fantolen

Eitemau ar ôl y fantolen yw'r rhai sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Dyma eitemau nad oeddent yn bodoli ar yr adeg y paratowyd y Fantolen ond dylid eu datgelu os ydynt yn berthnasol i gyflwyniad teg o'r cyfrifon.

Praeseptau

Dyma'r swm a delir i Gyngor nad yw'n bilio (er enghraifft cyngor cymunedol) er mwyn iddo allu talu ei dreuliau (ar ôl caniatáu ar gyfer ei incwm).

Addasiad blwyddyn flaenorol

Yr addasiadau perthnasol hynny sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu neu o gywiro gwallau perthnasol.

Darpariaeth

Darpariaeth yw swm a neilltuwn yn ein cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau disgwylidig na allwn eu mesur yn gywir.

Menter Cyllid Preifat (PFI) – menter gan y llywodraeth ganolog sy'n anelu at gynyddu'r lefelau o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. Cefnogir y PFI gan nifer o gymhellion i annog cyfranogiad awdurdodau.

Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb)

Mae hwn yn gyfleuster benthyciad a ddarperir gan Swyddfa Rheoli Dyled y Llywodraeth (DMO), sy'n darparu benthyciadau tymor hwy i awdurdodau lleol.

Trafodion partiön cysylltiedig

Dyma drosgrwyddo asedau neu rwymedigaethau neu gyflawni gwasanaethau gan, i neu ar gyfer parti cysylltiedig, ni waeth a godir tâl ai peidio.

Cronfa Ailbrisio

Mae hyn yn cynrychioli'r cynnydd/gostyngiad na ellir ei ddosbarthu yng ngwerth asedau sefydlog.

Cyfrif refeniw

Dyma gyfrif sy'n cofnodi ein gwariant a'n hincwm o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau a thâl, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau (SeRCOP)

Mae'r Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau yn darparu fframwaith cyson ar gyfer adrodd ar ddata awdurdodau lleol. Caiff SeRCOP ei adolygu'n flynyddol gan y corff rheoleiddio priodol i sicrhau ei fod yn datblygu yn unol ag anghenion llywodraeth leol fodern, Tryloywder, Gwerth Gorau a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Benthyca neu fuddsoddi dros dro

Dyma arian a fenthycwyd neu a fuddsoddwyd am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

Cronfa ymddiriedolaeth

Mae cronfeydd ymddiriedolaeth yn dal arian ar ran unigolyn neu sefydliad. Mae ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r arian ar ran y perchnogion.

Gwaith sy'n mynd rhagddo (WIP)

Gwaith sy'n mynd rhagddo yw gwerth y gwaith a wneir ar brosiect anorffenedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nad yw wedi'i godi ar y cyfrif refeniw eto.

Llun ar y clawr cefn: Parc Gwledig Bryngarw

